

Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar Fil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio)

Chwefror 2023



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
www.senedd.cymru/SeneddDCC

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddDCC@senedd.cymru**
Twitter: **[@SeneddDCC](https://twitter.com/SeneddDCC)**

© **Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2023**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar Fil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio)

Chwefror 2023



Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 26 Mai 2021.
Ceir ei gylch gwaith yn www.senedd.cymru/SeneddDCC

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



Cadeirydd y Pwyllgor:
Huw Irranca-Davies AS
Llafur Cymru



Alun Davies AS
Llafur Cymru



James Evans AS
Ceidwadwyr Cymreig



Peredur Owen Griffiths AS
Plaid Cymru

Cynnwys

Casgliadau ac Argymhellion.....	7
1. Cyfraith yr UE a ddargedwir	11
Beth yw cyfraith yr UE a ddargedwir?.....	11
Faint o gyfraith yr UE a ddargedwir	12
2. Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio), Llywodraeth y DU.....	14
Diben y Bil	14
Yr asesiad effaith ar gyfer y Bil.....	16
Ymateb cychwynnol Llywodraeth Cymru i'r Bil.....	16
Cadw, diwygio a dileu cyfraith yr UE a ddargedwir.....	17
Darpariaethau machlud	17
Adolygu cyfraith yr UE a ddargedwir	18
Datganiadau Llywodraeth y DU	20
Tirwedd reoleiddiol.....	21
Hawliau sy'n deillio o'r UE	22
Pwerau Gweinidogol	23
O 1 Ionawr 2024 ymlaen	24
Creu categori newydd o ddeddfwriaeth ddomestig: Cyfraith Gymathedig.....	24
Diddymu goruchafiaeth cyfraith yr UE a ddargedwir.....	25
Diddymu egwyddorion cyffredinol cyfraith yr UE.....	25
Newidiadau i rôl y llysoedd domestig	25
Cynnydd y Bil drwy Senedd y DU.....	26
3. Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru	27

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru.....	27
Darpariaethau y mae angen cydsyniad y Senedd yn eu cylch.....	28
Pwerau Gweinidogion Cymru.....	30
Goblygiadau ariannol y Bil.....	30
Safbwynt Llywodraeth Cymru ar y Bil fel y'i cyflwynwyd.....	31

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Llywodraeth Cymru (Memorandwm Rhif 2).....	34
Diweddariad ar y sefyllfa ers cyhoeddi'r Memorandwm a'r diwygiadau y mae angen cydsyniad ar eu cyfer.....	35
Safbwynt Llywodraeth Cymru ar y Bil fel y'i diwygiwyd yn y Cyfnod Pwyllgor yn Nhŷ'r Cyffredin.....	36

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Llywodraeth Cymru (Memorandwm Rhif 3).....	36
Diweddariad ar y sefyllfa ers cyhoeddi'r Memorandwm a Memorandwm Rhif 2 a gwelliannau y mae angen cydsyniad ar eu cyfer.....	37
Safbwynt Llywodraeth Cymru ar y Bil fel y'i diwygiwyd yn y Cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Cyffredin.....	38

4. Tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru40

Y ddarpariaeth fachlud.....	40
Diwygio'r dyddiad machlud yng Nghymru.....	41
Adolygu cyfraith yr UE a ddargedwir.....	41
Pwerau Gweinidogol.....	42
Tirwedd reoleiddiol.....	43
Dull Llywodraeth Cymru o ran y Bil.....	43
Trefniadau gweithio rhynglywodraethol.....	43
Opsiynau eraill i'r Bil.....	44
Ceisio gwelliannau i'r Bil.....	44
Nodi ac adolygu cyfraith yr UE a ddargedwir.....	45
Rhaglen deddfwriaethol Llywodraeth Cymru.....	46

Asesu effaith.....	46
Memorandwm Rhif 2	47
5. Barn rhanddeiliaid.....	48
Adolygu cyfraith yr UE a ddargedwir.....	48
Y machlud	48
Bylchau yn y ddeddfwriaeth	50
Pwerau Gweinidogol	52
Rôl y Senedd	53
Tirwedd reoleiddiol.....	55
Fframweithiau cyffredin a Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020	56
Effaith ar hawliau.....	57
6. Ystyriaeth y Pwyllgor	60
Y Bil.....	60
Ein barn ni.....	60
Goblygiadau i Fusnes y Senedd	73
Ein barn ni.....	73
Cydsyniad deddfwriaethol.....	76
Ein barn ni.....	76
Dull Llywodraeth Cymru o ran y Bil.....	76
Ein barn ni.....	76

Casgliadau ac Argymhellion

Casgliad 1. Fel Pwyllgor y Senedd sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am graffu ar is-ddeddfwriaeth – ac fel y Pwyllgor sy'n chwarae rhan eang wrth geisio asesu a gwella cyfraith Cymru – ni allwn or-ddweud ein pryderon ynghylch yr effaith y gallai'r Bil hwn ei chael ar sicrwydd ac ansawdd y gyfraith fel y mae'n gymwys yng Nghymru.....Tudalen 63

Casgliad 2. Fel un o bwyllgorau'r Senedd, rydym yn bryderus iawn nad yw darpariaethau'r Bil yn ymgysylltu'n ddigonol nac yn cydnabod rôl deddfwrfa mewn democratiaeth seneddol.....Tudalen 66

Casgliad 3. Mae'r Bil yn galluogi anghydbwysedd pŵer annerbyniol rhwng y weithrediaeth a'r ddeddfwrfa. Rydym yn cefnogi galwadau'r Pwyllgor Pwerau Diwygiedig a Diwygio Rheoleiddio ac eraill i ddileu'r pwerau Gweinidogol diderfyn a diangen o'r Bil.....Tudalen 68

Casgliad 4. O ystyried yr hyn y gwyddom y bydd y Bil yn ei wneud a'r farn a fynegwyd gan Lywodraeth Cymru – ac yn seiliedig ar yr ychydig wybodaeth a roddwyd inni gan Lywodraeth Cymru ynghylch unrhyw gynllun strategol – rhaid inni ddod i'r casgliad bod yr amserlen ar gyfer y Bil, a achosir gan y dyddiad machlud, sef 31 Rhagfyr 2023, yn golygu ei bod yn debygol y byddwn ni a'r Senedd yn wynebu llwyth gwaith digynsail yn hydref 2023.Tudalen 74

Casgliad 5. Mae'n hanfodol bod Llywodraeth Cymru yn gwneud cynnydd brys gyda'i chynllun o ran y modd y bydd yn mynd i'r afael â gofynion y Bil, os a phryd y caiff ei ddeddfu.....Tudalen 75

Casgliad 6. Mae angen i Lywodraeth Cymru ymgysylltu ar frys â'r Senedd a chydgyssylltu'n agos â hi ar oblygiadau'r Bil – os a phan gaiff ei ddeddfu – ar raglen lywodraethu Llywodraeth Cymru a'r effaith ar fusnes y Senedd.....Tudalen 75

Casgliad 7. Rydym yn cytuno ag asesiad Llywodraeth Cymru y dylid ceisio cydsyniad y Senedd ar gyfer holl gymalau'r Bil ac Atodlenni iddo, ac eithrio cymal 18.Tudalen 76

Casgliad 8. Mae'r rhan fwyaf o'r Pwyllgor yn cytuno â'r Cwnsler Cyffredinol na ddylai'r Senedd roi ei chydysyniad i'r Bil; nid yw pob aelod o'r Pwyllgor o'r farn y dylid gwrthod cydsyniad.....Tudalen 76

Casgliad 9. Rydym o'r farn y dylai penderfyniadau a wneir o dan gyfundrefn y Bil (os a phryd y'i deddfir) gael eu gwneud fesul achos, gydag ymgynghoriad llawn â rhanddeiliaid a throsolwg seneddol..... Tudalen 80

Casgliad 10. Rydym o'r farn bod y dull presennol o weithredu gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru fel ei gilydd, yn golygu bod y risg o osgoi'r Senedd yn uchel iawn..... Tudalen 80

Mae'r argymhellion a ganlyn yn argymhellion a wneir gan fwyafrif y Pwyllgor.

Argymhelliad 1. Dylid dileu'r dyddiad machlud, 31 Rhagfyr 2023, o'r Bil.
..... Tudalen 62

Argymhelliad 2. Os bydd y dyddiad machlud ar 31 Rhagfyr 2023 yn parhau yn y Bil, dylid diwygio'r Bil fel bod y pŵer yng nghymal 2 i estyn y dyddiad machlud hefyd yn cael ei roi i Weinidogion Cymru mewn perthynas â materion datganoledig. Tudalen 62

Mae'r argymhellion a ganlyn yn argymhellion a wneir gan y Pwyllgor cyfan.

Argymhelliad 3. Os yw'r dyddiad machlud ar 23 Mehefin 2026 yn parhau yn y Bil, dylai Llywodraeth Cymru, fel mater o frys, godi mater unigryw etholiad Senedd 2026 – a'r ffaith ei fod yn gwrthdaro â'r dyddiad machlud ar 23 Mehefin 2026 – gyda Llywodraeth y DU. Tudalen 62

Argymhelliad 4. Os yw'r dyddiad machlud ar 23 Mehefin 2026 yn parhau yn y Bil, dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod cyfnod diddymu'r Senedd cyn etholiad y Seithfed Senedd yn cael ei gynnwys yn y broses gynllunio hirdymor, ar gyfer yr holl reoliadau y gallai fod angen eu gwneud cyn y dyddiad machlud hwnnw.
..... Tudalen 62

Argymhelliad 5. Os bydd y dyddiad machlud ar 23 Mehefin 2026 yn parhau yn y Bil, dylai'r Pwyllgor Busnes, wrth baratoi ar gyfer y Seithfed Senedd, sicrhau bod ei olynydd yn ymwybodol y bydd angen rhoi blaenoriaeth i sefydlu pwyllgor priodol ar fyrder, fel bod modd ystyried rheoliadau a wneir cyn y dyddiad machlud hwnnw. Ymhellach, efallai y bydd angen cynnal Cyfarfodydd Llawn er mwyn i Aelodau'r Seithfed Senedd newydd ystyried unrhyw reoliadau sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft, a phleidleisio yn eu cylch. Tudalen 62

Argymhelliad 6. Rydym yn cefnogi galwad Llywodraeth Cymru ar ddangosfwrdd Llywodraeth y DU i nodi sut y mae pob darn o gyfraith yr UE a ddargedwir yn syrthio ar draws cymwyseddau a gedwir yn ôl, a chymwyseddau datganoledig.

.....Tudalen 64

Argymhelliad 7. Dylai Llywodraeth Cymru rannu ei rhestr ei hun o gyfraith yr UE a ddargedwir yng Nghymru gyda'n Pwyllgor a chyda Llywodraeth y DU cyn gynted â phosibl.....Tudalen 64

Argymhelliad 8. Dylai Llywodraeth Cymru ofyn i gyfraith yr UE a ddargedwir yng Nghymru gael ei hychwanegu at y dangosfwrdd.....Tudalen 64

Argymhelliad 9. Dylid diwygio'r Bil er mwyn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion osod gerbron deddfwrfeydd y DU, erbyn 30 Medi 2023, fanylion cyfraith yr UE a ddargedwir nad yw i'w hachub na'i diwygio – hynny yw, y gyfraith a fydd yn cael ei dirymu'n fwriadol ac na chaiff ei disodli, a'r hyn a fydd yn amodol ar ddarpariaeth machlud 31 Rhagfyr 2023 (os yw'r dyddiad machlud hwn yn parhau i fod yn y Bil).

.....Tudalen 69

Argymhelliad 10. Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod Cymru'n parhau i gydymffurfio â rhwymedigaethau rhyngwladol, fel sy'n ofynnol gan y setliad datganoli a Chod Gweinidogion Llywodraeth Cymru.....Tudalen 71

Argymhelliad 11. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau eglurder gan Lywodraeth y DU ynghylch y modd y bydd yn ystyried barn y Senedd mewn perthynas â newidiadau i gyfraith yr UE a ddargedwir, a gedwir yn ôl, yn enwedig mewn meysydd nad ydynt yn dod o dan fframweithiau cyffredin.....Tudalen 71

Argymhelliad 12. Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddarparu asesiad ar fyrder o effaith gyfunol y Bil, fframweithiau cyffredin a Deddf Marchnad Fewnol y DU 2020.....Tudalen 71

Argymhelliad 13. Dylai Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU roi sicrwydd bod yr holl newidiadau sy'n cael eu gwneud i gyfraith yr UE a ddargedwir o fewn maes a gwmpesir gan fframwaith cyffredin yn cael eu cymryd drwy'r broses fframwaith cyffredin perthnasol cyn iddi gael ei chadw, ei machlud, ei dirymu neu ei diwygio.

.....Tudalen 72

Argymhelliad 14. Dylai'r Pwyllgor Busnes ystyried ar fyrder a ddylid ymestyn tymor yr hydref i 22 Rhagfyr 2023, er mwyn darparu ar gyfer cyfarfodydd ychwanegol o'r Pwyllgor hwn ac eisteddiadau Cyfarfod Llawn ychwanegol a allai fod yn ofynnol ar gyfer ystyried rheoliadau sy'n deillio o'r Bil.....Tudalen 76

Argymhelliad 15. Dylai Llywodraeth Cymru asesu effaith y Bil ar Gymru fel mater o frys i gynorthwyo'r Senedd a rhanddeiliaid i ddeall goblygiadau'r Bil i Gymru yn well..... Tudalen 80

Argymhelliad 16. Dylai'r Cwnsler Cyffredinol wneud y canlynol:

- cadarnhau a fyddai amgylchiadau lle byddai Llywodraeth Cymru yn argymhell bod y Senedd yn cydsynio i'r Bil, ac egluro beth yw'r cyfryw amgylchiadau;
- darparu rhestr gynhwysfawr i ni o'r gwelliannau i'r Bil y mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn amdanynt a/neu wedi'u cefnogi. Tudalen 81

Argymhelliad 17. Rhaid i Lywodraeth Cymru egluro goblygiadau o ran adnoddau a chapasiti i Lywodraeth Cymru yn sgil rhoi Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) ar waith (pe bai'n cael ei ddeddfu), nodi asesiad gonest a didwyll o'r cyfryw oblygiadau a hefyd nodi'n glir yr hyn – os oes unrhyw beth – y bydd angen ei ddadleoli o ran gweithgarwch deddfwriaethol arall, er mwyn sicrhau y gall gyflawni'r tasgau sydd angen iddi eu cwblhau erbyn diwedd 2023.
..... Tudalen 82

1. Cyfraith yr UE a ddargedwir

Beth yw cyfraith yr UE a ddargedwir?

Er mwyn tarfu cyn lleied â phosibl wrth adael yr Undeb Ewropeaidd, troswyd cyfraith yr UE yn gyfraith ddomestig gan *Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018* ("Deddf 2018"). Daeth y gyfraith hon yn gategori penodol o gyfraith a elwir yn gyfraith yr UE a ddargedwir. O ganlyniad, roedd cyfreithiau'r UE yn parhau i fod ar waith, gyda'r nod o osgoi bylchau mewn meysydd pwysig fel safonau cynhyrchion, lles anifeiliaid a chyfraith cyflogaeth.

1. Mae yna wahanol gategoriâu o gyfraith yr UE a ddargedwir sy'n adlewyrchu ei tharddiad yng nghyfraith yr UE. Dyma'r tri phrif gategori:

1. deddfwriaeth ddomestig sy'n deillio o'r UE, sef cyfraith ddomestig sy'n rhoi effaith i gyfraith yr UE yn y DU;
2. deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir, sef cyfraith yr UE a oedd yn gymwys yn awtomatig yn y DU fel Aelod-wladwriaeth;
3. cyfreithiau eraill yr UE a ddargedwir, sy'n cwmpasu hawliau, pwerau a rhwymedigaethau'r UE, ac ati.

2. Mae cyfraith yr UE a ddargedwir yn cwmpasu cymysgedd o feysydd datganoledig y mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol amdanynt, er enghraifft yr amgylchedd, bwyd, materion gwledig, ynni a physgodfeydd, a meysydd a gadwyd yn ôl y mae Llywodraeth y DU yn gyfrifol amdanynt, er enghraifft masnach, trethi, dyfeisiau meddygol a chyfathrebiadau electronig.

Faint o gyfraith yr UE a ddargedwir

3. Mae cryn ansicrwydd yn parhau o ran faint o gyfraith yr UE a ddargedwir.¹ Er bod Llywodraeth y DU wedi cymryd camau i nodi darnau unigol, mae'n dal yn wir fod mesur agweddau eraill ar gyfraith yr UE a ddargedwir - er enghraifft egwyddorion cyffredinol cyfraith yr UE a ddargedwir a chyfraith achosion a ddargedwir - yn cyflwyno heriau pellach.

4. Pan gafodd ei gyhoeddi gyntaf ym mis Mehefin 2022, roedd **dangosfwrdd cyfraith yr UE a ddargedwir** Llywodraeth y DU yn amcangyfrif bod 2,400 o ddarnau o gyfraith yr UE a ddargedwir (y cyfeirir atynt yn aml fel '*REUL*') mewn grym. Mae Llywodraeth y DU wedi parhau i nodi rhagor o'r cyfryw ddarnau ac, ar 18 Ionawr 2023, dywedodd Ms Nusrat Ghani AS, y Gweinidog dros Ddiwydiant a Diogelwch Buddsoddiadau², ei bod wedi nodi a dilysu 3,200 o eitemau a'i bod yn disgwyl mai 4,000 o ddarnau fydd y nifer derfynol.³

5. Mae'r canllaw cefndirol i'r dangosfwrdd yn nodi ei fod yn gatalog a ddarparwyd gan Lywodraeth y DU ac felly nid yw wedi'i fwriadu i ddarparu adroddiad awdurdodol o Gyfraith yr UE a ddargedwir sydd o fewn cymhwysedd y Llywodraethau datganoledig. Fodd bynnag, gall gynnwys darnau unigol o Gyfraith yr UE a ddargedwir sydd mewn meysydd datganoledig. Roedd y diweddariad diweddaraf i'r dangosfwrdd ar 30 Ionawr 2023 yn cynnwys Cyfraith yr UE a ddargedwir yn ôl cymhwysiad tiriogaethol (*'territorial application'*).

6. Efallai na fydd y dangosfwrdd, felly, yn cynnwys holl Gyfraith yr UE a ddargedwir mewn meysydd datganoledig, ac nid yw'n cynnwys Cyfraith yr UE a ddargedwir a wneir gan Weinidogion Cymru. Cafodd **ceisiadau Llywodraeth Cymru** i'r dangosfwrdd nodi pa ddeddfwriaeth sydd wedi'i chadw a'i datganoli, a sut y gallai effeithio ar ddeddfwriaeth Cymru ei gwrthod i ddechrau.

¹ Gweler Financial Times, 8 Tachwedd 2022; Llythyr oddi wrth Nusrat Ghani AS, Gweinidog Gwladol yn yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol, i Bwyllgor Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio), 11 Tachwedd 2022; Tystiolaeth gan yr Arglwydd Callanan, yr Is-ysgrifennydd Seneddol dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol, i Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi, 6 Rhagfyr 2022. (Saesneg yn unig)

² Mae'r cyfeiriadau at deitlau Gweinidogion y DU yn yr adroddiad hwn yn cyfeirio at y teitlau oedd ganddynt ar y pryd. Felly, ni chyfeirir at deitlau a gafwyd wedi hynny.

³ Hansard, Retained EU Law (Revocation and Reform Bill), 18 January 2023, Column 462 (Saesneg yn unig)

7. Ar 27 Mehefin 2022, cyhoeddodd Mick Antoniws AS, y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad (y Cwnsler Cyffredinol) **ddatganiad** am y dangosfwrdd, lle dywedodd:

“Mewn cyferbyniad â'r cydweithio rhwng Llywodraeth y DU a'r Llywodraethau Datganoledig i greu'r corff o gyfraith yr UE a ddargedwir, cyn i'r dangosfwrdd gael ei gyhoeddi, cyfle cyfyngedig iawn a gawsom i edrych arno. Mae hynny'n annerbyniol. Nid yw'r dangosfwrdd yn cynnwys unrhyw wybodaeth ynghylch pa offerynnau o gyfraith yr UE a ddargedwir sydd mewn meysydd datganoledig, er i'r Llywodraethau Datganoledig ofyn am hynny. Nid yw ychwaith yn dynodi pa ddarnau o ddeddfwriaeth a wnaed yng Nghymru y gallai cynigion ehangach Llywodraeth y DU i ddiwygio, diddymu neu ddisodli holl gyfreithiau'r UE a ddargedwir effeithio arnynt.”

2. Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio), Llywodraeth y DU

Cafodd Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio)⁴ ('y Bil') ei gyflwyno i Dŷ'r Cyffredin – a chafodd ei ddarllenriad cyntaf – ar 22 Medi 2022. Noddir y Bil gan yr Adran Busnes a Masnach.⁵

Diben y Bil

8. Mae teitl hir y Bil yn nodi ei ddiben fel a ganlyn:

“revoke certain retained EU law; to make provision relating to the interpretation of retained EU law and to its relationship with other law; to make provision relating to powers to modify retained EU law; to enable the restatement, replacement or updating of certain retained EU law; to enable the updating of restatements and replacement provision; to abolish the business impact target; and for connected purposes”.

9. Wrth gyflwyno'r Bil, fe wnaeth Llywodraeth y DU **fynegi'r** farn nad oes lle, bellach, i gysyniadau cyfraith yr UE ar lyfr statud y DU. Yn nes ymlaen, ar 18 Ionawr 2023, dywedodd Ms Nusrat Ghani AS, y Gweinidog dros Ddiwydiant a Diogelwch Buddsoddiadau:

*“Retained EU law was never intended to sit on the statute book indefinitely. It is constitutionally undesirable, as some domestic laws, including Acts of Parliament, currently remain subordinate to some retained EU law. The continued existence on our statute book of the principle of supremacy of EU law is just not right, as we are a sovereign nation with a sovereign Parliament.”*⁶

⁴ Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) fel y'i cyflwynwyd (Bil 156) (Saesneg yn unig)

⁵ Sylwer, pan gyflwynwyd y Bil, enw'r adran oedd yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol.

⁶ Hansard, 18 Ionawr 2023, Colofn 392

10. Byddai'r Bil yn:

- Machlud y rhan fwyaf o gyfraith yr UE a ddargedwir fel ei bod yn dod i ben ar ddiwedd 2023 (mae hyn yn gymwys i is-ddeddfwriaeth sy'n deillio o'r UE a deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir). Gallai Gweinidogion y DU a Chymru wneud rheoliadau yn pennu pa offerynnau cyfraith yr UE a ddargedwir nad ydynt yn ddarostyngedig i fachlud 31 Rhagfyr 2023, nac i unrhyw fachlud estynedig. Byddai rheoliadau o'r fath a wneir gan Weinidogion Cymru yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol, lle mae gan y Senedd gyfnod o 40 diwrnod i wrthwynebu a dirymu.
- Darparu mecanwaith i Weinidogion y DU estyn y dyddiad machlud hyd at 23 Mehefin 2026.
- Ailenwi holl gyfraith yr UE sydd wedi goroesi yn "gyfraith gymathedig" a dileu ei statws arbennig o 1 Ionawr 2024.
- Rhoi pwerau i Weinidogion y DU a Chymru i gadw, diwygio a dirymu cyfraith yr UE a ddargedwir a chyfraith gymathedig yn haws, drwy is-ddeddfwriaeth.
- Cael gwared ar oruchafiaeth cyfraith yr UE, egwyddorion cyffredinol cyfraith yr UE, a hawliau'r UE sy'n uniongyrchol effeithiol.
- Rhoi mwy o ddisgresiwn i lysoedd domestig wyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a ddargedwir.
- Diddymu'r Targed Effaith Busnes fel rhan o ddiwygiadau rheoleiddio eraill (nid yw hyn yn gymwys i ddarpariaethau rheoleiddio mewn meysydd datganoledig).

11. Mae'r Bil yn gymwys i ddeddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth mewn gwahanol ffyrdd. Mae'n diffinio is-ddeddfwriaeth yr UE a ddargedwir fel a ganlyn:

- unrhyw gyfraith yr UE a ddargedwir nad yw'n ddeddfwriaeth sylfaenol; ac
- unrhyw gyfraith yr UE a ddargedwir sy'n ddeddfwriaeth sylfaenol, y mewnosodwyd ei thestun gan is-ddeddfwriaeth.

12. Mae'r pwerau y mae'r Bil hwn yn eu rhoi i Weinidogion Cymru yn ymwneud ag is-ddeddfwriaeth yr UE a ddargedwir mewn meysydd datganoledig.

Yr asesiad effaith ar gyfer y Bil

13. Ar 18 Tachwedd, gwnaeth y **Pwyllgor Polisi Rheoleiddio** (neu'r *RPC*) annibynnol **gyhoeddi** ei farn nad yw asesiad effaith y Bil yn addas i'r diben. Nododd y Pwyllgor Polisi Rheoleiddio fod agweddau ar yr asesiad o effaith – er enghraifft, ei sail resymegol a'i ddadansoddiad cost a budd – naill ai'n wan neu'n wan iawn.

14. Ar 28 Tachwedd 2022, **ysgrifennodd** Cadeirydd Pwyllgor Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol Tŷ'r Cyffredin at y Gwir Anrh Grant Shapps AS, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol, a'i wahodd i nodi ei ymateb i ganfyddiadau'r *RPC*. **Ymatebodd** yr Ysgrifennydd Gwladol ar 21 Rhagfyr, gan ddweud:

"...this reflects the limited information available at this stage to quantify potential impacts around how the enabling powers in the Bill will be used."

15. Ychwanegodd yr Ysgrifennydd Gwladol:

"...proper and proportionate analysis will be undertaken by departments in relation to specific amendments to REUL. Efforts are also underway to understand the potential impacts of sunseting. (...) Where measures are being revoked, departments will be expected to undertake proportionate analytical appraisal."

16. Wrth roi **tystiolaeth** gerbron Pwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi ar 6 Rhagfyr 2022, gwnaeth yr Arglwydd Callanan, yr Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol, gadarnhau hefyd y byddai'r *RPC* yn edrych o'r newydd ar – yn ei eiriau ef – y 'newidiadau polisi helaeth' a wneir gan bwerau dirprwyedig ac yn cynhyrchu amcangyfrif manylach.

Ymateb cychwynnol Llywodraeth Cymru i'r Bil

17. Wrth gyflwyno'r Bil, fe'i **disgrifiwyd** gan Lywodraeth Cymru fel ei fod yn 'cipio pwerau'.

18. Mewn **datganiad** ar 3 Tachwedd 2022, mynegodd y Cwnsler Cyffredinol farn Llywodraeth Cymru y byddai'r Bil yn golygu y byddai holl lywodraethau'r DU yn cymryd rhan mewn darn mawr o waith i adolygu miloedd o offerynnau cyfreithiol, er mwyn pennu sut y dylid ymdrin â hwy o dan y Bil, neu fel arall byddai perygl i'r

gyfraith gael ei thynnu o'r llyfr statud ar y dyddiad hwnnw. Dywedodd y Cwnsler Cyffredinol fod hyn yn tynnu sylw oddi ar faterion mwy pwysig, er enghraifft yr argyfwng costau byw.

19. Ar 28 Tachwedd 2022, cymerodd y Cwnsler Cyffredinol y cam anarferol o ysgrifennu – ar y cyd â Llywodraeth yr Alban – **lythyr agored** yn y Financial Times yn galw am dynnu'r Bil yn ôl.

Cadw, diwygio a dileu cyfraith yr UE a ddargedwir

20. Mae'r Bil yn cynnig llawer o lwybrau i Weinidogion gadw, diwygio a chael gwared ar gyfraith yr UE a ddargedwir erbyn 31 Rhagfyr 2023.

21. Mae pob opsiwn yn ei gwneud yn ofynnol i lywodraethau'r DU nodi cyfraith yr UE a ddargedwir, penderfynu beth y maent am ei wneud – ar y cyd neu'n unigol – a dewis pa lwybr i'w ddilyn o dan y Bil. Mae'r ffeithlun ar dudalen 19 yn dangos sut y gallai Gweinidogion Cymru neu'r DU gadw, diwygio neu ddileu cyfraith yr UE a ddargedwir o dan y Bil.

Darpariaethau machlud

22. Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth ar gyfer dau fachlud awtomatig, ar 31 Rhagfyr 2023 a 23 Mehefin 2026.

23. Mae Cymal 1 o'r Bil yn gosod machlud ar gyfer is-ddeddfwriaeth sy'n deillio o'r UE a deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir ar 31 Rhagfyr 2023 oni bai bod Gweinidogion yn eu cadw.

24. Ar 18 Ionawr 2023, dywedodd Ms Nusrat Ghani AS, y Gweinidog dros Ddiwydiant a Diogelwch Buddsoddiadau:

“...the sunset clause is necessary and is the quickest and most effective way to pursue retained EU law reform. It is only right to set the sunset and the revocation of inherited EU laws as the default position. It ensures that we are proactively choosing to preserve EU laws only when they are in the best interests of the UK. It ensures that outdated and unneeded laws are quickly and easily repealed. It will also give the Government a clear timeline in which to finish the most important tasks. (...) Requiring the Government to undergo complex and unnecessary parliamentary processes to remove retained EU

law that is no longer necessary or operable, and can more easily be removed, is not good governance.”⁷

25. Yn benodol mewn ymateb i welliant a fyddai’n dileu’r gwledydd datganoledig o’r machlud, dywedodd y Gweinidog:

“One amendment relates to carving out devolved nations. This Bill must and should apply to all nations of the UK. The territorial scope of the Bill is UK-wide and it is therefore constitutionally appropriate that the sunset applies across all four sovereign nations of the UK. One of the Bill’s primary objectives is to end retained EU law as a legal category across the UK. Providing a carve-out for legislation that is within a devolved competence would severely impact the coherence of the UK statute book and legal certainty for our public and businesses.”⁸

26. Mae darpariaethau gwahanol yn y Bil yn machlud agweddau eraill ar gyfraith yr UE a ddargedwir ar 23 Mehefin 2026, gan gynnwys estyniadau i’r machlud cyntaf, a phwerau Gweinidogol amrywiol.

Adolygu cyfraith yr UE a ddargedwir

27. Mae Llywodraeth y DU wedi disgrifio’r modd y byddai’r Bil yn rhoi pwerau i Weinidogion datganoledig gymryd camau mewn meysydd datganoledig, a’r modd y mae’n gosod y cyfrifoldeb ar lywodraethau datganoledig i wneud penderfyniadau, ac arfer pwerau o’r fath.⁹


28. Ar 22 Medi 2022, mewn **datganiad** i Dŷ’r Cyffredin, cyhoeddodd y Gwir Anrh. Jacob Rees-Mogg AS, y cyn Ysgrifennydd Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol, gynlluniau i adolygu cyfraith yr UE a ddargedwir ar y cyd â’r llywodraethau datganoledig er mwyn penderfynu beth i’w gadw, ei ddiwygio neu ei ddileu cyn dyddiad machlud awtomatig cyntaf y Bil, sef 31 Rhagfyr 2023.

⁷ Hansard, 18 Ionawr 2023, Colofn 398

⁸ Hansard, 18 Ionawr 2023, Colofn 403

⁹ Hansard, 18 Ionawr 2023, Colofn 395

Ffigur 1: Sut y gallai Gweinidogion Cymru neu'r DU fynd ati o dan y Bil i gadw, diwygio neu ddileu cyfraith yr UE a ddargedwir¹⁰



¹⁰ Erthygl Ymchwil y Senedd: A fydd yr haul yn machlud ar gyfraith yr UE a ddargedwir yng Nghymru?

Datganiadau Llywodraeth y DU

29. At hynny, gofynnodd Pwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi i'r Arglwydd Callanan a fydd Senedd y DU yn gwybod faint o gyfraith arwyddocaol Ewrop – er enghraifft, ar hawliau gweithio, cyfraith amgylcheddol a chyfraith bwyd a diogelwch – fydd yn cael ei chadw, ei newid neu ei haddasu cyn i'r Bil gael ei basio ac atebodd yntau drwy ddweud “no”.¹¹

30. O ran y modd y byddai Llywodraeth y DU yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Senedd y DU, dywedodd yr Arglwydd Callanan:

“The vehicle, of course, is that the legislation will be published on the dashboard. As individual departments and Ministers are looking at their particular policy areas, I have no doubt that they will want to update Parliament in the normal course of events, when Ministers are answering questions, et cetera, about the course of their discussions.”¹²

31. Pan gafodd ei herio na fyddai gan ddeddfwrfeydd unrhyw fodd o nodi'r materion neu'r cyfreithiau sydd, yn eu tyb hwy, yn bwysig, dywedodd yr Arglwydd Callanan mai barn y Gweinidogion yw hynny.¹³

32. Pan ofynnwyd iddo a oedd ‘cynllun B’ ar gael, pe bai darn o gyfraith yr UE a ddargedwir yn syrthio o'r ymyl ar ddamwain, dywedodd yr Arglwydd Callanan mai bwriad Llywodraeth y DU oedd gwneud i gynllun A weithio a pheidio â chael darn o ddeddfwriaeth sy'n machlud drwy ddamwain. Ychwanegodd:

“In the unlikely event of such a thing occurring, if the power exists in the original primary legislation, which is a big question mark, we could certainly revisit it. As much of this is, by the very nature, EU-derived legislation, sometimes there are no equivalent primary Acts in the UK that allow us to legislate in that respect, unless the powers of this Bill would still carry on after the sunset date.”¹⁴

¹¹ Y Pwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth, tystiolaeth lafar a wiriwyd: Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a diwygio), 6 Rhagfyr 2022, cwestiwn 7 (Saesneg yn unig)

¹² Y Pwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth, 6 Rhagfyr 2022, cwestiwn 8

¹³ Y Pwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth, 6 Rhagfyr 2022, cwestiwn 2

¹⁴ Y Pwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth, 6 Rhagfyr 2022, cwestiwn 4

33. At hynny, cadarnhaodd yr Arglwydd Callanan nad yw'r Bil yn darparu pŵer sylfaenol pe bai – yn ei eiriau ef – 'bwlch rhwng yr estyll' yn cael ei ddarganfod ar ôl dyddiad y machlud.¹⁵

34. Gofynnodd Pwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi i'r Arglwydd Callanan am amcangyfrif Llywodraeth y DU o nifer yr offerynnau yr oedd yn bwriadu eu gosod gerbron Senedd y DU rhwng y Cydsyniad Brenhinol i'r Bil a dyddiad y machlud. Dywedodd ei fod ar ddeall fod yr amcangyfrifon presennol yn awgrymu y byddai angen tua 1,000 darnau o is-ddeddfwriaeth. At hynny, nododd fod mwy o offerynnau, mwy na thebyg ac y byddent yn fwy manwl na'r rheini a ddaeth ymlaen o dan Ddeddf 2018.¹⁶

35. At hynny, cadarnhaodd yr Arglwydd Callanan i Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi fod Llywodraeth y DU yn llunio rhaglen o is-ddeddfwriaeth mewn adrannau unigol, ac y bydd honno'n dod gerbron Senedd y DU am benderfyniad.¹⁷

Tirwedd reoleiddiol

36. Byddai'r Bil yn grymuso Gweinidogion i newid tirwedd reoleiddiol y DU yn sylweddol.

37. Byddai Cymal 15 yn gwahardd Gweinidogion rhag cynyddu'r hyn y mae'n ei alw'n 'feichiau rheoleiddiol', er enghraifft costau ariannol, rhwystrau masnach neu anghyfleustra gweinyddol. Mae 'baich' ("*burden*") - yn ôl diffiniad y Bil - yn golygu unrhyw un o'r canlynol:

- a. cost ariannol;
- b. anghyfleustra gweinyddol;
- c. rhwystr i effeithlonrwydd, cynhyrchiant neu broffidioldeb; neu
- d. sancsiwn – troseddol neu fel arall – sy'n effeithio ar gyflawni unrhyw weithgaredd cyfreithlon.

38. Mae cymal 17 yn diwygio *Deddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006*, sy'n caniatáu i Weinidogion y DU ddileu a lleihau beichiau, fel bod deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir yn cael ei chynnwys o fewn ei

¹⁵ Y Pwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth, 6 Rhagfyr 2022, cwestiwn 4

¹⁶ Y Pwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth, 6 Rhagfyr 2022, cwestiwn 6

¹⁷ Y Pwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth, 6 Rhagfyr 2022, cwestiwn 6

chylch gwaith. Diben y Ddeddf yw dileu neu leihau unrhyw faich, neu'r beichiau cyffredinol, sy'n deillio'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol i unrhyw berson o unrhyw ddeddfwriaeth.

39. Mae cymal 18 yn diddymu'r Targed Effaith Busnes fel rhan o ddiwygiadau rheoleiddiol eraill. Mae'r Targed Effaith Busnes yn ymwneud â'r effaith economaidd ar fusnes gofynion rheoleiddiol sy'n cael eu cyflwyno neu sy'n dod i ben yn ystod senedd. Nid yw'r Targed Effaith Busnes yn gymwys i ddarpariaethau rheoleiddiol mewn meysydd datganoledig.

40. Gallai cymal machlud y Bil gael gwared yn awtomatig ar gyfraith yr UE a ddargedwir sy'n cynnwys safonau ac amddiffyniadau rheoleiddiol ar 31 Rhagfyr 2023, trwy ddamwain neu gynllun, oni bai ei bod yn cael ei chadw gan Weinidogion y DU neu Weinidogion Cymru.

41. Gallai'r Bil greu ymwahanu rhwng pedair gwlad y DU, a rhwng y DU a'r UE. Byddai hyn yn ychwanegol at yr ymwahanu presennol ar ôl ymadael â'r UE, fel y caiff ei fonitro gan UK in a Changing Europe.¹⁸

42. At hynny, mae'r Bil yn codi cwestiynau am fecanweithiau presennol i reoli dargyfeirio mewnol yn y DU, er enghraifft fframweithiau cyffredin a *Deddf Marchnad Fewnol y DU 2020* ("Deddf y Farchnad Fewnol").

Hawliau sy'n deillio o'r UE

43. Ar 9 Rhagfyr 2022, dywedodd y Prif Weinidog fod gan y Bil y potensial i wneud drwg i hawliau dynol gan y byddai hawliau sy'n deillio o'r UE, megis hawliau gweithwyr, yn dod i ben ar 31 Rhagfyr 2023 heb unrhyw opsiwn i estyn y dyddiad hwn. Gallai effeithiau hawliau sy'n deillio o'r UE gael eu hailadrodd mewn cyfraith ddomestig gan ddefnyddio pwerau eraill yn y Bil, ond rhaid gwneud hynny cyn i'r pwerau hyn ddod i ben ar 23 Mehefin 2026.

44. At hynny, byddai'r Bil yn diddymu egwyddorion cyffredinol cyfraith yr UE ar 31 Rhagfyr 2023, gan gynnwys triniaeth gyfartal a pharch at hawliau sylfaenol. Ni fydd cyfraith ddomestig, bellach, yn cael ei darllen yn unol â'r rhain o 2024 ymlaen.

¹⁸ UK in a Changing Europe, *Olrhainiwr dargyfeirio rheoleiddiol y DU-UE: chweched rhifyn*, 2 Chwefror 2023 (Saesneg yn unig)

Pwerau Gweinidogol

45. Byddai'r Bil yn galluogi Gweinidogion y DU neu Weinidogion Cymru i weithredu ar eu pen eu hunain neu ar y cyd.

46. Mewn meysydd datganoledig, gallai Gweinidogion Cymru ddeddfu gyda chymeradwyaeth benodol y Senedd neu hebddi. Gallai Gweinidogion y DU wneud yr un peth dros Gymru, gan osgoi'r Senedd a Llywodraeth Cymru.

Mae'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft yn gymwys i reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru sy'n gweithredu ar eu pen eu hunain o dan y canlynol:

- cymal 8 (sy'n diwygio, yn diddymu neu'n dirymu deddfwriaeth sylfaenol)
- cymal 12 (sy'n diwygio, yn diddymu neu'n dirymu deddfwriaeth sylfaenol)
- cymal 13 (sy'n diwygio, yn diddymu neu'n dirymu deddfwriaeth sylfaenol)
- cymal 15(2) (sy'n rhoi pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth neu greu trosedd)
- cymal 15(3)

Mae'r weithdrefn negyddol 'gwnaed' yn gymwys i reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru sy'n gweithredu ar eu pen eu hunain o dan y canlynol:

- cymal 1
- cymal 8 (nad sy'n diwygio, yn diddymu neu'n dirymu deddfwriaeth sylfaenol)
- cymal 16

Oni bai bod Gweinidogion Cymru yn dewis dilyn y weithdrefn gadarnhaol ddrafft, mae'r weithdrefn sifftio yn gymwys i reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru sy'n gweithredu ar eu pen eu hunain o dan y canlynol:

- cymal 12 (nad ydynt yn diwygio, yn diddymu neu'n dirymu deddfwriaeth sylfaenol)
- cymal 13 (nad ydynt yn diwygio, yn diddymu neu'n dirymu deddfwriaeth sylfaenol)
- cymal 15(1)

- cymal 15(2) (nad ydynt yn rhoi pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth neu greu trosedd)

47. Byddai pwerau gweinidogol yn ddarostyngedig i weithdrefnau gwahanol yn dibynnu ar y pŵer a arferir.

48. Mae cymal 19 y Bil yn rhoi pwerau i Weinidogion y DU wneud rheoliadau o ganlyniad i'r Bil fel y maent yn ei ystyried yn briodol, sy'n cynnwys Pŵer Harri VIII i addasu unrhyw ddeddfiad. Gallai hyn gynnwys Gweinidogion y DU yn deddfu mewn meysydd datganoledig.

49. Mae cymal 20 yn egluro cwmpas y pwerau ar gyfer gwneud rheoliadau yn y Bil, ac yn cyflwyno Atodlenni 2 a 3 i'r Bil. Mae'r cymal hwn yn egluro y gellir defnyddio'r pwerau i wneud rheoliadau, er enghraifft, i wneud darpariaeth atodol a throsiannol.

50. Mae Atodlen 1 yn gwneud diwygiadau canlyniadol i gymal 10, gan gynnwys diwygio'r weithdrefn seneddol ar gyfer cyfraith benodol yr UE a ddargedwir. Mae'r Bil yn diwygio'r weithdrefn seneddol ar gyfer deddfwriaeth mewn meysydd datganoledig, fel *Deddf Cymwysterau Proffesiynol 2022*. Mae'r Senedd wedi atal cydsyniad ar gyfer rhywfaint o'r ddeddfwriaeth hon.

51. Mae Atodlen 2 yn amlinellu cyfyngiadau ar Weinidogion datganoledig, i'r graddau na chânt wneud darpariaeth y tu allan i gymhwysedd datganoledig.

52. Mae Atodlen 3 yn gosod gweithdrefnau ar gyfer y pwerau ar gyfer gwneud rheoliadau yn y Bil, gan gynnwys darparu rôl sifftio i un o bwyllgorau'r Senedd.

O 1 Ionawr 2024 ymlaen

Creu categori newydd o ddeddfwriaeth ddomestig: Cyfraith Gymathedig

53. Mae cymal 6 yn ailenwi cyfraith yr UE a ddargedwir sy'n goroesi fel "cyfraith gymathedig" o 1 Ionawr 2024. Bydd hyn yn gymwys i holl gyfraith yr UE a ddargedwir, gan gynnwys deddfwriaeth sylfaenol sy'n deillio o'r UE, fel *Deddf Cydraddoldeb 2010*. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau i ailddatgan a diweddarau cyfraith gymathedig mewn meysydd datganoledig hyd at 23 Mehefin 2026.

Diddymu goruchafiaeth cyfraith yr UE a ddargedwir

54. Mae cymal 4 yn diddymu goruchafiaeth cyfraith yr UE ar 31 Rhagfyr 2023 ac yn cyflwyno hierarchaeth newydd o ran cyfraith ddomestig. O 1 Ionawr 2024 ymlaen, rhaid darllen cyfraith uniongyrchol yr UE a ddargedwir a rhoi effaith iddi yn unol â deddfwriaeth ddomestig, hyd yn oed os yw'r deddfwriaeth ddomestig yn rhagddyddio cyfraith uniongyrchol yr UE a ddargedwir.

55. Er diddymu'r egwyddor o oruchafiaeth, mae cymal 8 yn rhoi pwerau i Weinidogion ailgyflwyno'r egwyddor, fel bod deddfwriaeth ddomestig benodol i'w darllen a'i rhoi ar waith mewn modd sy'n gydnaws â chyfraith benodol uniongyrchol yr UE a ddargedwir. Mae modd defnyddio pwerau cymal 8 tan 23 Mehefin 2026.

Diddymu egwyddorion cyffredinol cyfraith yr UE

56. Mae cymal 5 yn diddymu egwyddorion cyffredinol cyfraith yr UE ar 31 Rhagfyr 2023. Ni fydd cyfraith ddomestig bellach yn cael ei darllen yn unol ag egwyddorion cyffredinol cyfraith yr UE o 1 Ionawr 2024 ymlaen. Mae'r rhain yn cynnwys sicrwydd cyfreithiol, triniaeth gyfartal, cymesuredd, parch at hawliau sylfaenol a'r egwyddor ragofalus.

Newidiadau i rôl y llysoedd domestig

57. Mae cymal 7 yn newid rôl y llysoedd fel nad ydynt bellach yn rhwym i gyfraith achosion yr UE a ddargedwir. Gall llysoedd uwch a llysoedd apêl wyro oddi wrth benderfyniadau blaenorol ond rhaid i lysoedd a thribiwnlysoedd is gyfeirio penderfyniadau i wyro at lysoedd uwch.

58. Mewn rhai amgylchiadau, gall y Cwnsler Cyffredinol gyfeirio pwyntiau cyfreithiol ar achosion o gyfraith yr UE a ddargedwir o fewn chwe mis, a all arwain yn y pen draw at glywed yr achos gan y Goruchaf Lys. Gall y Cwnsler Cyffredinol hefyd ddod yn barti i achosion sy'n ymwneud ag ystyr neu effaith deddfwriaeth Gymreig.

59. Mae cymal 9 yn caniatáu i lysoedd a thribiwnlysoedd gyhoeddi gorchmynion anghydnawsedd pan fyddant yn penderfynu bod cyfraith ddomestig yn anghydnaws â chyfraith uniongyrchol yr UE a ddargedwir. Mae modd defnyddio gorchmynion anghydnawsedd er mwyn gwneud y canlynol:

- i. nodi effaith y ddarpariaeth berthnasol yn ei gweithrediad mewn perthynas â'r achos penodol hwnnw;

- ii. oedi pa bryd y daw'r gorchymyn i rym;
- iii. dileu neu gyfyngu ar unrhyw effaith o weithrediad y ddarpariaeth berthnasol cyn i'r gorchymyn ddod i rym.

Cynnydd y Bil drwy Senedd y DU

60. Cwblhaodd y Bil y Cyfnod Pwyllgor yn Nhŷ'r Cyffredin ar 29 Tachwedd 2022. Cynhaliwyd y Cyfnod Adrodd a'r Trydydd Darlleniad ar 18 Ionawr 2023. Cafodd y Bil ei Ddarlleniad Cyntaf yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 19 Ionawr 2023 a'i ail ddarlleniad ar 6 Chwefror. Bydd y Cyfnod Pwyllgor yn dechrau ar 23 Chwefror 2023.

3. Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru

Mae Rheolau Sefydlog 29.1 a 29.2 yn darparu ei bod yn ofynnol gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol pan fydd Bil perthnasol yn y DU yn gwneud darpariaeth o ran Cymru at unrhyw ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd neu sy'n addasu ei chymhwysedd deddfwriaethol.

61. Ar 5 Hydref 2022 ysgrifennodd Mick Antoniw AS, y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, at y Llywydd a dweud:

"...mae gan y Bil fel y'i cyflwynwyd gynnwys polisi na rannwyd â'r Llywodraethau Datganoledig cyn ei gyflwyno ac, oherwydd y goblygiadau sylweddol i Lywodraeth Cymru, nid yw eto wedi bod yn bosibl ystyried yn briodol ganlyniadau'r hyn sy'n cael ei gynnig o safbwynt datganoli. (...)

*...rhagwelaf y bydd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn cael ei osod gerbron y Senedd. Serch hynny, bydd y tu allan i'r cyfnod amser arferol o bythefnos o dan Reol Sefydlog 29."*¹⁹

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru

62. Ar 3 Tachwedd 2022, gosododd y Cwnsler Cyffredinol Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ("y Memorandwm") mewn perthynas â'r Bil gerbron y Senedd.²⁰

63. Ar yr un diwrnod, cyhoeddodd y Cwnsler Cyffredinol **ddatganiad ysgrifenedig** yn ogystal.

¹⁹ Llythyr oddi wrth y Cwnsler Cyffredinol i'r Llywydd, 5 Hydref 2022

²⁰ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Bil Cyfraith yr UE (Dirymu a Diwygio) a Ddargedwir, Tachwedd 2022

64. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad gyflwyno adroddiad ar y Memorandwm erbyn 9 Chwefror 2023.²¹ Diwygiwyd y dyddiad hwn yn ddiweddarach i 13 Mawrth 2023 (gweler paragraff 92).

Darpariaethau y mae angen cydsyniad y Senedd yn eu cylch

65. Mae paragraffau 9 i 78 o'r Memorandwm yn nodi asesiad Llywodraeth Cymru o'r darpariaethau yn y Bil sy'n gofyn am gydsyniad y Senedd oherwydd eu bod naill ai'n gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at unrhyw ddiben o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd neu oherwydd eu bod yn addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, ac yn cael eu categorio fel a ganlyn:

Cymalau yn y Bil sy'n rhoi pwerau gwneud rheoliadau i Weinidogion Cymru a/neu Weinidog y Goron:

- cymal 1 (Machlud is-ddeddfwriaeth sy'n deillio o'r UE a deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir);
- cymal 2 (Estyn machlud o dan adran 1);
- cymal 8 (Cydnawsedd).

Pwerau yn y Bil sy'n ymwneud â chyfraith yr UE a ddargedwir a chyfraith gymathedig:

- cymal 12 (Pŵer i ailddatgan cyfraith yr UE a ddargedwir);
- cymal 13 (Pŵer i ailddatgan cyfraith gymathedig neu atgynhyrchu hawliau, pwerau, rhwymedigaethau etc yr UE a ddargedwir sydd wedi machlud);
- cymal 14 (Pwerau i ailddatgan neu atgynhyrchu: cyffredinol);
- cymal 15 (Pwerau i ddirymu neu ddisodli);
- cymal 16 (Pŵer i ddiweddarau);
- cymal 17 (Pŵer i ddileu neu leihau beichiau);

²¹ Y Pwyllgor Busnes, Amserlen i'w hystyried: Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio), Tachwedd 2022

- cymal 19 (Darpariaeth ganlyniadol);
- cymal 20 (Rheoliadau: cyffredinol);
- Atodlen 2 (Rheoliadau: cyfyngiadau ar bwerau awdurdodau datganoledig);
- Atodlen 3 (Rheoliadau: y weithdrefn).

Cymalau yn y Bil sy'n diwygio'r darpariaethau presennol yn Neddf 2018:

- cymal 3 (Machlud hawliau, pwerau, rhwymedigaethau etc yr UE a ddargedwir);
- cymal 4 (Diddymu goruchafiaeth cyfraith yr UE);
- cymal 5 (Diddymu egwyddorion cyffredinol cyfraith yr UE);
- cymal 6 ("Cyfraith gymathedig");
- cymal 7 (Rôl y llysoedd mewn perthynas â chyfraith yr UE a ddargedwir);
- cymal 9 (Gorchmynion anghydnawsedd);
- cymal 10 (Cwmpas pwerau);
- cymal 11 (Gofynion gweithdrefnol).

Gweddill y darpariaethau:

- cymal 21 (Dehongli);
- cymal 22 (Cychwyn, trosiannol ac arbedion);
- cymal 23 (Rhychwant ac enw byr);
- Atodlen 1 (Diwygio cyfraith benodol yr UE a ddargedwir).

66. I grynhoi, mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylid ceisio cydsyniad y Senedd ar gyfer holl gymalau'r Bil ac Atodlenni iddo, ac eithrio cymal 18 (Dirymu darpariaethau targed effaith busnes).

67. Ym mharagraff 79 o'r Memorandwm, mae'r Cwnsler Cyffredinol yn nodi bod y cyn Ysgrifennydd Gwladol wedi ysgrifennu at Lywodraeth Cymru ar 22 Medi 2022, yn amlinellu dadansoddiad datganoli Llywodraeth y DU ac yn nodi bod

Llywodraeth y DU o'r farn bod cymalau 1, 2, 3, 7, 10, 12, 13, 15, 16, 17 ac Atodlen 3 yn sbarduno'r broses cydsyniad deddfwriaethol.

68. Mae'r Cwnsler Cyffredinol yn nodi bod hyn "yn cyd-fynd yn fras (ond nid yn gyfan gwbl) â'r cymalau hynny y mae Llywodraeth y DU wedi datgan eu bod yn ofynnol yn ei barn hi o fewn Atodiad A i'r Nodiadau Esboniadol i'r Bil, fel y'i cyhoeddwyd ar 22 Medi, sef cymalau 1, 2, 7, 8, 10, 12-14, 16, 17, ac Atodlenni 2 a 3".²²

Pwerau Gweinidogion Cymru

69. Ym mharagraffau 75 i 78 o'r Memorandwm, mae'r Cwnsler Cyffredinol yn disgrifio'r pwerau yn y Bil a roddir i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau.

70. I grynhoi, mae'r Cwnsler Cyffredinol yn nodi fel a ganlyn:

- mae paragraff 10 o Atodlen 3 yn nodi gweithdrefn y Senedd pan wneir rheoliadau gan Weinidogion Cymru o dan bwerau yn y Bil;
- bydd y weithdrefn gadarnhaol ddrafft yn gymwys i reoliadau o dan gymalau 8, 12 a 13 (sy'n diwygio, diddymu neu'n dirymu deddfwriaeth sylfaenol), cymal 15(2) (sy'n rhoi pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth neu'n creu trosedd), a chymal 15(3);
- bydd y weithdrefn negyddol yn gymwys i reoliadau o dan gymal 1, cymal 8 (nad ydynt yn diwygio, diddymu neu'n ddirymu deddfwriaeth sylfaenol), a chymal 16;
- gallai'r weithdrefn fod y weithdrefn cadarnhaol drafft neu'r weithdrefn negyddol ar gyfer unrhyw bŵer arall i wneud rheoliadau yn y Bil, yn dibynnu ar benderfyniad Gweinidogion Cymru a chanlyniad ymarfer sifftio (fel y darperir ar ei gyfer ym mharagraff 11 o Atodlen 3) os yw Gweinidogion Cymru yn dewis y weithdrefn negyddol ar gyfer rheoliadau o dan gymalau 12, 13 neu 15.

Goblygiadau ariannol y Bil

71. Mae paragraffau 91 a 92 o'r Memorandwm yn nodi asesiad Llywodraeth Cymru o oblygiadau ariannol y Bil:

²² Y Memorandwm, paragraff 79

“Nid oes modd rhoi amcangyfrif ar hyn o bryd o wariant tebygol o dan bwerau a nodir yn y Memorandwm hwn.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i adolygu hyn ac yn ymdrechu i hysbysu'r Senedd am unrhyw oblygiadau ariannol i Gymru yn ddiweddarach pan fyddant yn cael eu deall yn llawnach.”

Safbwynt Llywodraeth Cymru ar y Bil fel y'i cyflwynwyd

72. Mae paragraffau 81 i 90 o'r Memorandwm yn nodi safbwynt Llywodraeth Cymru ar y Bil fel y'i cyflwynwyd i Senedd y DU.

73. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod y Bil yn ceisio gwireddu amcanion polisi Llywodraeth y DU “ac nid ydynt yn cael eu rhannu gan Lywodraeth Cymru”.²³ Yn y Memorandwm, mae'r Cwnsler Cyffredinol yn nodi fel a ganlyn:

“Rydym o'r farn bod corff REUL, yn gyffredinol, yn gweithredu'n dda ac nad oes angen ei drin ar y cyd fel hyn. Mae ein safbwynt ar y Bil wedi ei gyfleu'n gryf drwy sianeli Gweinidogol a swyddogol.

Mae'r Bil fel y'i cyflwynwyd yn cyflwyno nifer o bryderon cyfreithiol, cyfansoddiadol, polisi ac ymarferol.”²⁴

74. Mae'r pryderon hyn wedi'u grwpio i bum categori:

- i. pwerau cydredol,
- ii. machlud yn achos REUL,
- iii. baich rheoleiddio,
- iv. rhyngweithio â Deddf y Farchnad Fewnol, a
- v. pwerau i Swyddogion y Gyfraith.

75. O ran pwerau cydredol, mae'r Cwnsler Cyffredinol yn datgan fel a ganlyn o ran Gweinidogion y DU yn defnyddio pwerau mewn meysydd datganoledig heb ganiatâd:

²³ Y Memorandwm, paragraffau 81 a 82

²⁴ Y Memorandwm, paragraffau 82 a 83

“Mae hwn yn fater cyfansoddiadol sylweddol iawn i Lywodraeth Cymru. Ein disgwyliad, yn y lle cyntaf, yw y dylai pwerau i ddiwygio deddfwriaeth ddatganoledig fod yn nwylo Gweinidogion Cymru yn unig, neu, os ydynt yn cael eu dal yn gydredol â Gweinidogion y Goron, y dylai fod gofyniad ar wyneb y Bil iddynt geisio cydsyniad Gweinidogion Cymru i’w harfer mewn meysydd datganoledig.”²⁵

76. O ran y ddarpariaeth machlud, mae’r Cwnsler Cyffredinol yn datgan fel a ganlyn:

“Mae gan Lywodraeth Cymru bryderon sylweddol iawn y bydd y terfyn amser mympwyol, sef diwedd 2023, ar gyfer machlud yn gorfodi pob llywodraeth ledled y DU i ailedrych ar y corff mawr hwn o gyfraith mewn amserlen gywasgedig iawn a fydd yn debygol o arwain at gamgymeriadau a diffyg gweithredadwyedd. Canlyniad cyfnod mor ddiangen o fyr i ystyried yr holl ryngddibyniaethau cymhleth yn y gyfraith fyddai llyfr statud camweithredol o bosibl.

Ar ben hynny, bydd y ddarpariaeth fachlud yn golygu na fydd gan Senedd y DU na’r deddfwrfeydd datganoledig unrhyw rôl graffu na goruchwyllo pe bai REUL yn machlud yn awtomatig ac na fydd yn debygol o ddarparu digon o amser ar gyfer ymgynghori effeithiol ar addasiadau arfaethedig i REUL, a allai arwain at faterion heb eu nodi ac effeithiau negyddol posibl, er enghraifft ar grwpiau gwarchodedig. Mae’r effaith ehangach ar Lywodraeth Cymru, sy’n ei gwneud yn ofynnol ailgyfeirio adnoddau ar adeg pan ddylem ganolbwyntio ar faterion llawer pwysicach, hefyd yn destun pryder mawr ac, yn ddi-os, bydd yn effeithio ar raglen deddfwriaethol y Llywodraeth a gallu’r Llywodraeth i gyflawni ymrwymadau eraill.

Mae mecanwaith yn y Bil i estyn y dyddiad machlud tan 2026 ar gyfer darnau penodol, neu ddisgrifiadau, o REUL, er mai dim ond i Weinidogion y Goron y darperir hyn. Dylai Gweinidogion Cymru allu arfer y pwerau hyn hefyd mewn perthynas â deddfwriaeth o fewn cwmpas y Senedd. Mae Llywodraeth

²⁵ Y Memorandwm, paragraff 84

Cymru wedi cyfleu hyn yn gryf i Lywodraeth y DU a gofyn am ddiwygiadau yn y Bil i'w adlewyrchu.”²⁶

77. O ran beichiau rheoleiddio, mae'r Cwnsler Cyffredinol yn datgan fel a ganlyn o ran cyfyngiadau ar ddefnyddio pwerau yn y Bil a gyflwynir gan gymal 15:

“Gallai hyn olygu y gellid ystyried bod cynigion i ddiwygio REUL, er enghraifft i adlewyrchu gwybodaeth wyddonol newydd neu ddatblygiad polisi, yn arwain at gynyddu'r baich rheoleiddio ac fe allai hyn yn ei dro gyfyngu ar ein gallu i wneud newidiadau effeithiol.”²⁷

78. O ran y rhyngweithio â Deddf y Farchnad Fewnol, mae'r Cwnsler Cyffredinol yn credu bod “potensial clir i'r gwaith o arfer y pwerau yn y Bil arwain at ymwahanu yn y gyfraith yn y meysydd hyn rhwng y Llywodraethau Datganoledig a Llywodraeth y DU”. Ym mharagraff 89 o'r Memorandwm, mae'n nodi fel a ganlyn:

“Mae Llywodraeth y DU wedi cyfeirio at ei bwriad i leihau'r baich rheoleiddio. Nid yw Llywodraeth Cymru yn cefnogi unrhyw ymagwedd at ostwng yr ansawdd uchel a'r safonau y mae ein defnyddwyr, ein gweithwyr a'n busnesau wedi dod i'w disgwyl.”

79. O ran y pwerau i Swyddogion y Gyfraith gyfeirio achosion at y llysoedd apêl neu ymyrryd mewn achosion sy'n codi materion sy'n ymwneud â chyfraith achosion yr UE a ddargedwir, mae'r Cwnsler Cyffredinol yn datgan fel a ganlyn:

“...fel y'u drafftiiwyd, mae'r amgylchiadau lle y gall Swyddogion y Gyfraith Datganoledig (gan gynnwys y Cwnsler Cyffredinol) arfer y pwerau atgyfeirio ac ymyrryd hyn yn llawer mwy cyfyngedig na'r rhai ar gyfer Swyddogion y Gyfraith Llywodraeth y DU. Er mwyn sicrhau y gall Swyddogion y Gyfraith Datganoledig ddiogelu buddiannau datganoledig, dylid ehangu'r pwerau hyn fel y gellir atgyfeirio pob mater, hyd yn oed y rhai a gedwir yn ôl, sy'n cael effaith mewn meysydd datganoledig.”²⁸

80. Wrth ddod i gasgliad, mae'r Cwnsler Cyffredinol yn nodi fel a ganlyn:

²⁶ Y Memorandwm, paragraffau 85 i 87

²⁷ Y Memorandwm, paragraff 88

²⁸ Y Memorandwm, paragraff 90

“O gofio'r pryderon sylweddol sydd gennym am y Bil, fel y'u nodir uchod, nid yw Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn briodol i'r ddarpariaeth berthnasol yn y Bil hwn gael ei gwneud. Rwyf felly'n argymhell bod cydsyniad ar gyfer Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) yn cael ei atal.”²⁹

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Llywodraeth Cymru (Memorandwm Rhif 2)

81. Ysgrifennodd y Cwnsler Cyffredinol at y Llywydd ar 28 Tachwedd 2022, yn nodi fel a ganlyn:

“Ar 16 Tachwedd, cafodd gwelliannau eu cyflwyno gan Lywodraeth y DU i'w hystyried yn ystod cyfnod Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin. Rydym yn awr o'r farn ei bod yn ofynnol gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol mewn perthynas â'r gwelliannau hynny. Ni chawsom wybod gan Lywodraeth y DU fod ganddi gynlluniau i gyflwyno gwelliannau gan y llywodraeth. Mae'n bosibl y gallai Llywodraeth y DU gyflwyno gwelliannau pellach i'w hystyried yn ystod y cyfnod hwn, ac, at hynny, gellid hefyd cyflwyno gwelliannau perthnasol eraill nad ydynt yn rhai gan y llywodraeth, a chytuno arnynt, mewn perthynas â'r Bil hwn. Byddwn yn llunio un Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol sy'n ymdrin â'r holl welliannau perthnasol a gafodd eu nodi yn ystod cyfnod Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin. Rwy'n cydnabod y bydd hyn yn golygu y bydd y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol yn cael ei osod fwy na phythefnos ar ôl cyflwyno'r set gyntaf o welliannau, fodd bynnag, rwy'n credu y bydd hyn yn sicrhau bod y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol yn adlewyrchu'n gywir ddatblygiad y Bil ac yn galluogi'r Senedd i graffu'n effeithiol.”³⁰

82. Ar 21 Rhagfyr 2022 gosododd y Cwnsler Cyffredinol Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) gerbron y Senedd³¹ mewn

²⁹ Y Memorandwm, paragraff 93

³⁰ Llythyr oddi wrth y Cwnsler Cyffredinol i'r Llywydd, 28 Tachwedd 2022

³¹ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2), Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio), Rhagfyr 2022

perthynas â 15 o welliannau a gyflwynwyd i'r Bil gan Lywodraeth y DU ar 16 Tachwedd.

83. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r Pwyllgor gyflwyno adroddiad ar Femorandwm Rhif 3 erbyn 13 Mawrth 2023.³²

Diweddariad ar y sefyllfa ers cyhoeddi'r Memorandwm a'r diwygiadau y mae angen cydsyniad ar eu cyfer

84. Ym mharagraff 9 o Femorandwm Rhif 2, mae'r Cwnsler Cyffredinol yn nodi bod y gwelliannau a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU yn addasu'r canlynol:

- cymal 1 (Machlud is-ddeddfwriaeth sy'n deillio o'r UE a deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir);
- cymal 7 (Rôl y llysoedd mewn perthynas â chyfraith yr UE a ddargedwir);
- cymal 12 (Pŵer i ailddatgan cyfraith yr UE a ddargedwir);
- cymal 13 (Pŵer i ailddatgan cyfraith gymathedig neu atgynhyrchu hawliau, pwerau, rhwymedigaethau etc yr UE a ddargedwir sydd wedi machlud);
- cymal 14 (Pwerau i ailddatgan neu atgynhyrchu: cyffredinol);
- cymal 22 (Cychwyn, trosiannol ac arbedion);
- Atodlen 3 (Rheoliadau: y weithdrefn).

85. Dywed y Cwnsler Cyffredinol yr ystyriwyd bod y cymalau hyn i gyd yn 'ddarpariaeth berthnasol' at ddiben y Memorandwm a osodwyd gerbron y Senedd ym mis Tachwedd 2022 a bod Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen memorandwm cydsyniad deddfwriaethol atodol mewn perthynas â'r diwygiadau i'r cymalau hynny ar y sail eu bod hefyd yn gwneud darpariaeth berthnasol.³³

86. Ym mharagraff 10, mae'r Cwnsler Cyffredinol yn nodi bod Llywodraeth Cymru o'r farn bod yr holl welliannau yn "dechnegol eu natur", ac eithrio gwelliant rhif saith i gymal 22 "a ystyrir yn welliant mwy sylweddol, gan ei fod yn ehangu

³² Y Pwyllgor Busnes, Amserlen ar gyfer ystyried: Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar y Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio), Ionawr 2023

³³ Memorandwm Rhif 2, paragraff 9

cwmpas y pŵer presennol o fewn cymal 22". Disgrifir gwelliant 7 yn Atodiad 1 i Femorandwm Rhif 2 fel a ganlyn:

"Bydd y gwelliant hwn i gymal 22 yn golygu y bydd Gweinidog y Goron (yn unig) yn gallu gwneud darpariaeth drosiannol, darfodol neu arbed sy'n cael ei hystyried yn briodol mewn cysylltiad â "(b) the revocation of anything by section 1, or (c) anything ceasing to be recognised or available in domestic law (and, accordingly, ceasing to be enforced, allowed or followed) as a result of section 3." Gallai hyn gynnwys o fewn meysydd cymhwysedd datganoledig."

Safbwynt Llywodraeth Cymru ar y Bil fel y'i diwygiwyd yn y Cyfnod Pwyllgor yn Nhŷ'r Cyffredin

87. Mae paragraffau 11 a 12 o Femorandwm Rhif 2 yn nodi safbwynt Llywodraeth Cymru ar y Bil fel y'i diwygiwyd ym Mhwyllgor Bil Cyhoeddus Tŷ'r Cyffredin.

88. Mae'r Cwnsler Cyffredinol yn nodi bod safbwynt Llywodraeth Cymru "heb newid". Mae'n dweud:

*"...[mae'r] Bil yn parhau i gyflwyno'r un pryderon cyfreithiol, cyfansoddiadol, polisi ac ymarferol. Mae'r pryderon hyn wedi'u trosglwyddo i Lywodraeth y DU, ac nid aed i'r afael â hwy mewn gwelliannau dilynol i'r Bil."*³⁴

89. Wrth ddod i gasgliad, mae'r Cwnsler Cyffredinol yn nodi fel a ganlyn:

*"...o gofio ein pryderon am y Bil, nad yw'r gwelliannau yn mynd i'r afael â hwy, ni fyddwn mewn sefyllfa i argymhell bod cydsyniad yn cael ei roi i'r manylion a gynhwysir yn y Bil, nac i ddarpariaethau eraill y Bil, fel y'u nodir yn yr LCM gwreiddiol."*³⁵

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Llywodraeth Cymru (Memorandwm Rhif 3)

90. Ysgrifennodd y Cwnsler Cyffredinol at y Llywydd ar 19 Ionawr 2022, yn nodi fel a ganlyn:

³⁴ Memorandwm Rhif 2, paragraff 11

³⁵ Memorandwm Rhif 2, paragraff 14

“Cyflwynodd Llywodraeth y DU welliannau ar 11 Ionawr, ac rydym wrthi’n dadansoddi’r manylion i weld a fydd yn ofynnol inni lunio Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol arall yn sgil y gwelliannau hyn. Rhannodd Llywodraeth y DU rywfaint o’r cynnwys polisi ar un o’r gwelliannau arfaethedig, ond ni rannodd holl fanylion y gwelliannau a gyflwynwyd. Yn ogystal, mae gwelliannau anllywodraethol perthnasol hefyd wedi cael eu cyflwyno, ac mae’n bosibl y cytunir i gynnwys y gwelliannau hyn yn y Bil.

Byddwn yn llunio un Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol yn ymdrin â’r holl welliannau perthnasol a gyflwynwyd ar gyfer y Cyfnod Adrodd. Rwy’n cydnabod bod hyn yn golygu y caiff y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol hwn ei osod fwy na phythefnos ar ôl cyflwyno’r set gyntaf o welliannau, ond credaf y bydd yn sicrhau ei fod yn adlewyrchu datblygiad y Bil yn gywir ac yn rhoi cyfle i’r Senedd graffu arno yn effeithiol.”³⁶

91. Ar 6 Chwefror 2023 gosododd y Cwnsler Cyffredinol Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol gerbron y Senedd (Memorandwm Rhif 3)³⁷ mewn perthynas â 19 o welliannau a gyflwynwyd i’r Bil gan Lywodraeth y DU ar 11 Ionawr cyn y Cyfnod Adrodd yn Nhŷ’r Cyffredin, a gynhaliwyd ar 18 Ionawr.

92. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai’r Pwyllgor gyflwyno adroddiad ar Femorandwm Rhif 3 erbyn 13 Mawrth 2023.³⁸

Diweddariad ar y sefyllfa ers cyhoeddi’r Memorandwm a Memorandwm Rhif 2 a gwelliannau y mae angen cydsyniad ar eu cyfer

93. Ym mharagraff 11 o Femorandwm Rhif 3 mae’r Cwnsler Cyffredinol yn nodi y “gellir rhannu gwelliannau Llywodraeth y DU yn bedwar categori”:

- a. gwelliant i gymal 2 sy’n ymwneud ag estyn y dyddiad machlud,
- b. gwelliannau i gymal 6 (dileodd y gwelliant hwn gymal 6) a chymal 22 a chymal newydd gydag Atodlen newydd sy’n cyd-fynd ag ef sy’n

³⁶ Llythyr oddi wrth y Cwnsler Cyffredinol i’r Llywydd, 19 Ionawr 2022

³⁷ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3), Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio), Chwefror 2023

³⁸ Y Pwyllgor Busnes, Amserlen i’w hystyried: Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Rhif 3) ar y Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio), Chwefror 2023

ymwneud ag “assimilated law” (“cyfraith gymathedig”) sy’n disodli cymal 6 gwreiddiol,

- c. diwygiad i gymal 14 sy’n ymwneud ag ystyr “restatement” (“ailddatganiad”), a
- d. gwelliannau sy’n ymwneud â’r Prif Droseddlys (*High Court of Justiciary*).

94. Yn Atodiad 1 i Femorandwm Rhif 3, mae Llywodraeth Cymru yn darparu disgrifiadau o welliannau Llywodraeth y DU ac yn ystyried eu heffaith.

95. Mae’r Cwnsler Cyffredinol o’r farn bod y diwygiadau i gymalau 2, 6, 14 a 22, a’r cymal newydd (“*Assimilated Law*”) a’r Atodlen sy’n cyd-fynd ag ef (“*Assimilated law: consequential amendments*”), i gyd yn gwneud darpariaeth berthnasol at ddibenion Rheol Sefydlog 29.³⁹

96. Mae’r Cwnsler Cyffredinol yn nodi nad yw Llywodraeth Cymru o’r farn bod angen caniatâd y Senedd ar gyfer y diwygiadau sy’n ymwneud â’r Prif Droseddlys, gan fod y Prif Droseddlys yn rhan o system farnwrol yr Alban.⁴⁰

Safbwynt Llywodraeth Cymru ar y Bil fel y’i diwygiwyd yn y Cyfnod Adrodd yn Nhŷ’r Cyffredin

97. Ym mharagraffau 15 ac 16 o Femorandwm Rhif 3, mae’r Cwnsler Cyffredinol yn datgan fel a ganlyn:

“Nid yw safbwynt y Llywodraeth a nodir yn yr LCM a osodwyd ar 3 Tachwedd wedi newid gan fod y Bil yn parhau i gyflwyno’r un pryderon cyfreithiol, cyfansoddiadol, polisi ac ymarferol. Mae’r pryderon hyn wedi’u trosglwyddo i Lywodraeth y DU, ac nid aed i’r afael â hwy mewn gwelliannau dilynol i’r Bil.

Ar y sail nad yw Llywodraeth y DU wedi mynd i’r afael ag unrhyw un o’r pryderon (a amlinellir yn ein LCM) ni fyddwn yn gallu argymhell i’r Senedd ei bod yn rhoi cydsyniad i’r Bil fel y mae wedi’i ddrafftio ar hyn o bryd.”

98. Daw’r Cwnsler Cyffredinol i ben drwy ddweud nad yw Llywodraeth Cymru, y tro hwn eto, “mewn sefyllfa i argymhell bod cydsyniad yn cael ei roi i’r manylion a

³⁹ Memorandwm Rhif 3, paragraffau 12 a 13

⁴⁰ Memorandwm Rhif 3, paragraff 14

gynhwysir yn y Bil, nac i ddarpariaethau eraill y Bil, fel y'u nodir yn yr LCM gwreiddiol.”⁴¹

⁴¹ Memorandwm Rhif 3, paragraff 18

4. Tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru

99. Ar 5 Rhagfyr 2022⁴², clywsom dystiolaeth gan y Cwnsler Cyffredinol ar y Bil a'r Memorandwm. At hynny, gwnaethom ei holi ar faterion a godwyd gyda ni gan randdeiliaid.

100. Yn dilyn y sesiwn, gwnaethom ysgrifennu⁴³ at y Cwnsler Cyffredinol a gofyn am atebion i nifer o gwestiynau pellach. Ymatebodd y Cwnsler Cyffredinol ar 19 Ionawr 2023.⁴⁴

Y ddarpariaeth fachlud

101. Ym Mhennod 3 rydym yn tynnu sylw at “bryderon sylweddol” y Cwnsler Cyffredinol a Llywodraeth Cymru ynghylch y ddarpariaeth fachlud yng nghymal 1 o'r Bil, a fyddai'n machlud is-ddeddfwriaeth sy'n deillio o'r UE ac a fyddai'n cadw deddfwriaeth uniongyrchol yr UE ar 31 Rhagfyr 2023, oni bai eu bod yn cael eu cadw gan Weinidogion.

102. Yn ei lythyr atom ar 19 Ionawr 2023, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol:

“...ac eithrio diwygio'r gyfraith yn raddol fel sy'n briodol drwy gasglu tystiolaeth, ymgynghori â'r cyhoedd, a chwblhau trefniadau craffu deddfwriaethol yn y ffordd arferol, dros amser fel sy'n wir gydag unrhyw gorff o gyfreithiau, nid oeddem yn bwriadu diddymu, dirymu na diwygio cyfraith yr UE a ddargedwir erbyn terfyn amser mympwyol am resymau ideolegol. Fodd bynnag, mae cynnig deddfwriaeth fel hon a fyddai, yn anochel, yn diddymu mesurau diogelu economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol hanfodol yn annerbyniol ac yn anghyfrifol. Mae hyn yn arbennig o wir o ystyried y defnydd o amser gwerthfawr gan lywodraethau a deddfwrfeydd pan mai canlyniad rhan helaeth o'r gwaith hwn yn syml fydd cadw yn y gyfraith y darpariaethau hanfodol hynny y byddai'r Bil yn eu dileu'n awtomatig fel arall. Ni fydd y gwaith ofer hwn o unrhyw fudd i neb, ac mae'n ddefnydd anffodus o adnoddau cyfyngedig yn Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, o

⁴² Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 5 Rhagfyr 2022

⁴³ Llythyr oddi wrth y Cwnsler Cyffredinol i'r Llywydd, 14 Hydref 2022

⁴⁴ Llythyr oddi wrth y Cwnsler Cyffredinol, 19 Ionawr 2023 Gweld hefyd Llythyr oddi wrth y Cwnsler Cyffredinol, 12 Ionawr 2023

*ganlyniad i'r penderfyniadau a wnaed gan Weinidogion
Llywodraeth y DU.*"⁴⁵

103. At hynny, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol y gallai diwedd awtomatig cyfraith yr UE a ddargedwir arwain at broblemau nad ydynt yn hysbys ar hyn o bryd ac effeithiau negyddol posibl, er enghraifft effeithiau ar grwpiau gwarchodedig.⁴⁶

Diwygio'r dyddiad machlud yng Nghymru

104. Gwnaethom ofyn i'r Cwnsler Cyffredinol a yw Llywodraeth Cymru o'r farn bod gan y Senedd y cymhwysedd deddfwriaethol i gyflwyno Bil Cymreig a fyddai'n diwygio'r Bil hwn (os a phan y'i deddfir) er mwyn diwygio'r dyddiad machlud fel y mae'n gymwys ar hyn o bryd i gyfraith yr UE a ddargedwir mewn meysydd datganoledig. At hynny, gwnaethom ofyn a oedd Llywodraeth Cymru yn ystyried cyflwyno Bil o'r fath os yw'r dyddiad machlud yn y Bil yn parhau i fod ar 31 Rhagfyr 2023.

105. Dywedodd y Cwnsler Cyffredinol wrthym:

*"Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n ystyried pob opsiwn ar gyfer lleihau cymaint â phosibl effaith negyddol y Bil ar bobl Cymru. Fel sy'n wir mewn unrhyw sefyllfa, pe bai Llywodraeth Cymru am gyflwyno deddfwriaeth sylfaenol, byddai angen iddi gael ei bodloni bod y deddfwriaeth o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd."*⁴⁷

Adolygu cyfraith yr UE a ddargedwir

106. Yn ôl y Cwnsler Cyffredinol:

- *"the obligation is on the UK Government to actually ensure that its own legislation is fit for purpose"*⁴⁸;
- o ran Llywodraeth Cymru, esboniodd *"our focus has got to be firstly to ensure that we analyse and retain our own EU retained law, that we focus on that law that's been made within Wales"*⁴⁹;

⁴⁵ Llythyr oddi wrth y Cwnsler Cyffredinol, 19 Ionawr 2023

⁴⁶ Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, 19 Ionawr 2023, ymateb i gwestiwn 12

⁴⁷ Llythyr oddi wrth y Cwnsler Cyffredinol, 10 Chwefror 2023

⁴⁸ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a Chyfansoddiad, 5 Rhagfyr 2022, Cofnod y Trafodion [241]

⁴⁹ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 5 Rhagfyr 2022, Cofnod y Trafodion [242]

- mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn gweithio drwy ddadansoddiad a baratowyd gan adrannau unigol o Lywodraeth y DU.⁵⁰

107. At hynny, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol a swyddogion o Lywodraeth Cymru wrthym fod Llywodraeth Cymru yn adolygu cyfraith yr UE a ddargedwir yng Nghymru gan nad oes neb arall yn mynd i gadw hynny⁵¹, a bydd ganddynt restr derfynol cyn bo hir.⁵²

Pwerau Gweinidogol

108. Ym Mhennod 2 rydym yn nodi'r darpariaethau yn y Bil sy'n rhoi pwerau gwneud rheoliadau i Weinidogion y DU a Gweinidogion Cymru. Mae'r darpariaethau'n cynnwys pwerau cydredol, sy'n galluogi Gweinidogion y DU i weithredu mewn meysydd datganoledig, a phwerau sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i weithredu ar eu pen eu hunain.

109. At hynny, gwnaethom bwysleisio bod Atodlen 3 y Bil yn gosod gweithdrefnau ar gyfer y pwerau ar gyfer gwneud rheoliadau yn y Bil, gan gynnwys darparu rôl sifftio i un o bwyllgorau'r Senedd. Ar hyn o bryd, ein Pwyllgor ni yw'r un sy'n gyfrifol am sifftio rheoliadau a wneir o dan Ddeddf 2018 a *Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Perthynas yn y Dyfodol) 2020*.

110. Ar 23 Medi 2022, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol y gallai'r Bil roi "awdurdod dilyffethair i ddeddfu mewn meysydd datganoledig – a hynny'n groes i'r setliad datganoli a sefydlwyd yn ddemocrataidd".⁵³

111. Mynegodd y Cwnsler Cyffredinol farn hefyd am ehangder y pwerau yn y Bil i Weinidogion Cymru a Gweinidogion y DU, gan ddweud bod y rhain yn bwerau, na fydddech am eu rhoi i lywodraethau o dan amgylchiadau arferol. At hynny, dywedodd wrthym:

"...it's not a question of whether we want them; we will probably have no choice because if we want to do anything about retaining legislation that maintains standards and so on, things

⁵⁰ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad 5 Rhagfyr 2022, Cofnod y Trafodion [242] a [277]. Gweler hefyd Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, 19 Ionawr 2023, ymateb i gwestiwn 2

⁵¹ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 5 Rhagfyr 2022, Cofnod y Trafodion [251]

⁵² Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, 19 Ionawr 2023, ymateb i gwestiwn 1

⁵³ Llywodraeth Cymru, *Datganiad i'r wasg Pryder bod deddfwriaeth newydd gan Lywodraeth y DU yn cipio pwerau*, 23 Medi 2022

that we agree with them in devolved areas, then we're going to have to exercise them."⁵⁴

112. O ran y pwerau cydredol yn y Bil, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol na all fod yn iawn bod gan Lywodraeth y DU y gallu i ddirymu deddfwriaeth – neu alluogi deddfwriaeth i gael ei ddirymu – mewn meysydd datganoledig, mai mater y dylwn ni ei gael ydyw hwn ac y dylai'r pwerau hynny fod gyda ni. Ychwanegodd y dylai'r pwerau, o leiaf, fod yn bwerau cydredol plws.⁵⁵

113. Gwnaethom ofyn i'r Cwnsler Cyffredinol a oedd wedi gwneud cais i'r Bil gael ei ddiwygio i godi'r gweithdrefnau craffu sydd ynghlwm wrth y pwerau – os a phryd y cânt eu harfer gan Weinidogion Cymru – ond ni chadarnhawyd hyn.⁵⁶

Tirwedd reoleiddiol

114. Ym Mhennod 3, rydym yn tynnu sylw at wrthwynebiad y Cwnsler Cyffredinol i gymal 15 o'r Bil, lle mae Gweinidogion yn cael eu gwahardd rhag cynyddu beichiau rheoleiddiol wrth ddirymu neu ddisodli cyfraith yr UE a ddargedwir.

115. Mae Llywodraeth Cymru am wella safonau cyn Brexit.⁵⁷

116. Mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi dweud wrthym fod safonau yn faes mawr i Lywodraeth Cymru a hefyd ei bod am gadw'r gyfraith heb weld safonau'n cael eu gostwng mewn unrhyw ffordd⁵⁸.

117. Disgrifiodd y Cwnsler Cyffredinol effaith gyfunol y Bil hwn â Deddf y Farchnad Fewnol mewn **datganiad ysgrifenedig** ar 27 Mehefin 2022, gan nodi y bydd Llywodraeth Cymru'n "parhau i frwydro yn erbyn unrhyw gamau i'n gorfodi i fod mewn ras i'r gwaelod".

Dull Llywodraeth Cymru o ran y Bil

Trefniadau gweithio rhynglywodraethol

118. Ar 20 Medi 2022 – ychydig cyn i'r Bil gael ei gyflwyno i Senedd y DU – **ysgrifennodd** y Cwnsler Cyffredinol at y cyn Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes,

⁵⁴ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 5 Rhagfyr 2022, Cofnod y Trafodion [291]

⁵⁵ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 5 Rhagfyr 2022, Cofnod y Trafodion [267]

⁵⁶ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 5 Rhagfyr 2022, Cofnod y Trafodion [267]

⁵⁷ Llythyr oddi wrth y Cwnsler Cyffredinol, 4 Awst 2022

⁵⁸ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 5 Rhagfyr 2022, Cofnod y Trafodion [269]

Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol gan ddisgrifio sut nad oedd gan Lywodraeth Cymru lawer o gysylltiad â'r Bil.

119. Mae'r Arglwydd Callanan a Ms Nusrat Ghani AS, y Gweinidog dros Ddiwydiant a Diogelwch Buddsoddiadau, wedi dweud wrth Senedd y DU fod Llywodraeth y DU wedi siarad i raddau helaeth â'r gweinyddiaethau datganoledig ynghylch eu rôl, a bod gwaith sylweddol wedi'i wneud gyda'r awdurdodau datganoledig ers dros 18 mis.⁵⁹

120. At hynny, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol wrthym fod swyddogion Llywodraeth Cymru wedi gweithio gyda chymheiriaid ar draws adrannau Whitehall ond nad oedd y wybodaeth wedi bod yn gynhwysfawr, a bod Llywodraeth Cymru yn parhau i gael y wybodaeth mewn modd tameidiog⁶⁰.

Opsiynau eraill i'r Bil

121. Fel y nodwyd uchod, cawsom wybod gan y Cwnsler Cyffredinol nad oedd gan Lywodraeth Cymru – cyn cyflwyno'r Bil – unrhyw gynlluniau i ailedrych ar gyfraith yr UE a ddargedwir ar y cyd ond yn hytrach ei bod yn disgwyl adolygu cyfraith yr UE a ddargedwir yn ôl yr angen gan gasglu tystiolaeth, ymgynghori â'r cyhoedd, a chynnal gwaith craffu deddfwriaethol yn y ffordd arferol⁶¹.

122. Cytunodd rhanddeiliaid allweddol, yn eu tystiolaeth i ni, y dylai unrhyw newidiadau i gyfraith yr UE a ddargedwir gynnwys dull o'r fath.⁶²

Ceisio gwelliannau i'r Bil

123. Cawsom gadarnhad gan y Cwnsler Cyffredinol fod Llywodraeth Cymru wedi gofyn am un gwelliant yn unig i'r Bil, sef rhoi'r pŵer i estyn y dyddiad machlud yng nghymal 2 i Weinidogion Cymru mewn perthynas â chyfraith yr UE a ddargedwir ar feysydd sydd o fewn cymhwysedd datganoledig.

⁵⁹ Y Pwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth, 6 Rhagfyr 2022, cwestiwn 1 a Hansard, 18 Ionawr 2023, Colofn 392

⁶⁰ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad 5 Rhagfyr 2022, Cofnod y Trafodion [242] a [277]. Gweler hefyd Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, 19 Ionawr 2023, ymateb i gwestiwn 2.

⁶¹ Llythyr oddi wrth y Cwnsler Cyffredinol, 19 Ionawr 2023

⁶² Gweler [Llythyr oddi wrth NFU Cymru](#), 16 Tachwedd 2022; [Llythyr oddi wrth Gymdeithas Cyfraith Amgylcheddol y DU](#), 17 Tachwedd 2022; [Llythyr oddi wrth y Prosiect Cyfraith Gyhoeddus](#), 18 Tachwedd 2022; [Llythyr oddi wrth Ffederasiwn Bwyd a Diod Cymru](#), 18 Tachwedd 2022; [Llythyr oddi wrth Cyswllt Amgylchedd Cymru](#), 18 Tachwedd 2022; a [Llythyr oddi wrth Ganolfan Llywodraethiant Cymru a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru](#), 18 Tachwedd 2022 (Saesneg yn unig)

124. Mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi gwneud sawl cyfeiriad atom ynglŷn â newidiadau y mae'n dymuno eu gweld yn y Bil. Mae ambell un o'r rheini wedi'u cynnwys yn ei femoranda cydsyniad deddfwriaethol.

125. Gwnaethom ofyn am fanylion ynghylch pa newidiadau penodol i'r Bil yr oedd Llywodraeth Cymru yn eu ceisio a pham nad oedd wedi gofyn am welliant i ddileu'r cyfyngiad yng nghymal 15 o'r Bil, a fyddai'n atal cynnydd yn y baich rheoleiddio wrth ddirymu neu ddisodli cyfraith yr UE a ddargedwir. Fodd bynnag, ni ddarparwyd manylion penodol o'r fath i ni.⁶³

126. At hynny, mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi dweud bod Llywodraeth Cymru yn dibynnu ar newidiadau a gyflwynwyd gan "eraill" i gyflawni'r canlyniadau sy'n ddymunol ganddi.⁶⁴

Nodi ac adolygu cyfraith yr UE a ddargedwir

127. Hyd y gwyddom, Llywodraeth Cymru yw'r unig lywodraeth ddatganoledig i beidio â chynnal ei hasesiad ei hun o gyfraith yr UE a ddargedwir. Mae Llywodraeth yr Alban yn mynd trwy gyfraith yr UE a ddargedwir yn annibynnol ar Lywodraeth y DU, gan gynnwys canfod faint o reoliadau a fyddai'n dod o dan y Bil. At hynny, rydym ar ddeall bod adrannau Gogledd Iwerddon wedi cynnal adolygiadau cychwynnol o gyfraith yr UE a ddargedwir sydd o fewn eu cylch gorchwyl hwy.⁶⁵

128. Ar 4 Awst 2022, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol na fydd Llywodraeth Cymru yn mynd drwy gyfraith yr UE a ddargedwir yn annibynnol ar Lywodraeth y DU. Dywedodd wrthym:

*"Ni chredwn y dylai'r Llywodraethau Datganoledig orfod cynnal ymarferion dadansoddi cwbl ar wahân yn hyn o beth, a hynny'n bennaf o ystyried maint y dasg ac mai menter gan Lywodraeth y DU yw hon sy'n seiliedig ar amserlen fympwyol ganddi, a chan gofio ein bod wedi gofyn am waith ar y cyd yn y cyswllt hwn."*⁶⁶

129. O ran adolygu cyfraith yr UE a ddargedwir, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol wrthym ei fod yn amau bod Llywodraeth Cymru – ynghyd â'r Llywodraeth yn yr

⁶³ Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, 19 Ionawr 2023, ymateb i gwestiynau 10 ac 11

⁶⁴ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 5 Rhagfyr 2022, Cofnod y Trafodion [289]

⁶⁵ Gweler Hansard, Retained EU Law (Revocation and Reform Bill), 8 Tachwedd 2022, colofn 78, a llythyr oddi wrth Dr Gravey a Dr Whitten, 15 Tachwedd 2022 (Saesneg yn unig)

⁶⁶ Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, 4 Awst 2022. Gweler hefyd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 5 Rhagfyr 2022, Cofnod y Trafodion [241] i [251]

Alban ac adrannau yng Ngogledd Iwerddon – i gyd, mewn gwirionedd, yn yr un cwch ac yn yr un sefyllfa i raddau helaeth.⁶⁷

130. Cawsom wybod gan Lywodraeth Cymru fod yn rhaid iddi aros i weld pa gamau y bydd Llywodraeth y DU yn eu cymryd cyn gwneud penderfyniadau.

131. Ar 5 Rhagfyr 2022, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol, os bydd Llywodraeth y DU yn penderfynu mai'r hyn y dylai wneud yw cadw nifer fawr ohonynt yna mae hynny, mewn gwirionedd, yn datrys rhan o'r broblem honno⁶⁸.

132. Ar 16 Ionawr 2023, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol wrthym, er bod Llywodraeth Cymru wedi bod yn cynnal rhywfaint o waith i nodi cyfraith yr UE a ddargedwir yng Nghymru, fod Llywodraeth Cymru yn aros i weld beth yw union fwriadau Llywodraeth y DU o ran cyfraith yr UE a ddargedwir fel y mae'n gymwys ar draws y DU, ledled Prydain Fawr, Cymru a Lloegr, neu hyd yn oed yn benodol i Loegr⁶⁹.

Rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru

133. Dywedodd y Cwnsler Cyffredinol wrthym nad oedd yn bwriadu rhoi dim o'r neilltu⁷⁰ o raglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru, er gwaethaf rhoi gwybod i'r Senedd a ninnau y byddai Llywodraeth Cymru – yn ei eiriau ef – wedi'i gorlethu⁷¹.

134. Dywedodd y Prif Weinidog yn ddiweddarach wrth Bwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog yn y Senedd y byddai angen dargyfeirio capasiti o fannau eraill yn Llywodraeth Cymru i ymdopi â'r Bil.⁷²

Asesu effaith

135. Dywedodd y Cwnsler Cyffredinol y canlynol o ran Llywodraeth Cymru:

“We’re not carrying out our own impact assessment, other than to the extent that we agree with, really, some of the analysis of

⁶⁷ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 5 Rhagfyr 2022, Cofnod y Trafodion [241]. Gweler hefyd Cofnod y Trafodion [244].

⁶⁸ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 5 Rhagfyr 2022, Cofnod y Trafodion [277]

⁶⁹ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 16 Ionawr 2023, Cofnod y Trafodion [147]. Gweler hefyd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 16 Ionawr 2023, Cofnod y Trafodion [87] a Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, 19 Ionawr 2023, ymateb i gwestiynau 9a a 9b.

⁷⁰ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 5 Rhagfyr 2022, Cofnod y Trafodion [304] a [306]

⁷¹ Y Cyfarfod Llawn, 9 Medi 2022. Gweler hefyd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 5 Rhagfyr 2022, Cofnod y Trafodion [237] a [239].

⁷² Y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog, 9 Rhagfyr 2022, Cofnod y Trafodion [31]

the impact assessment that's already been made, that it really isn't fit for purpose, that it is very weak, it doesn't do the sort of analysis and scope of what is required within that. It's difficult to do an impact assessment on something where you don't know what the full content of it or what the full scale of it that's going to be involved is".⁷³

Memorandwm Rhif 2

136. Mae Memorandwm Rhif 2 yn cydnabod na fu'r cynigion ar gyfer gwelliannau a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru yn llwyddiannus. Gwnaethom ofyn i'r Cwnsler Cyffredinol a oedd hynny'n newid ei ddull o ymdrin â'r Bil. Dywedodd wrthym nad oedd wedi gwneud hynny gan fod y diffygion yn y Bil yn arbennig o glir.⁷⁴

137. Yn benodol ar y pŵer yn y Bil sy'n parhau heb ei ddiwygio ac sy'n caniatáu i Weinidogion y DU estyn y dyddiad machlud yn unig, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol:

"...we'll continue making the point on this. I've had an unsatisfactory response, I believe, from Minister Grant Shapps that basically says, 'No, everything is okay, devolution is going to be respected' and so on. Well, the Bill as it stands I don't think does actually do that."⁷⁵

138. At hynny, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol fod y mater o ran pwerau cydredol yn y Bil hefyd yn rheswm pam nad oedd dull Llywodraeth Cymru o ymdrin â'r Bil wedi newid. Dywedodd:

"...it seems to me that it's completely wrong that UK Ministers should have powers to be able to change the law in devolved areas. So, that's an area, and, of course, you'll see within the LCM that, as time has gone on, those are the areas why we cannot possibly concede or recommend to the Senedd that that legislation takes place."⁷⁶

⁷³ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 5 Rhagfyr 2022, Cofnod y Trafodion [256]

⁷⁴ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 16 Ionawr 2023, Cofnod y Trafodion [131]

⁷⁵ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 16 Ionawr 2023, Cofnod y Trafodion [132]

⁷⁶ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 16 Ionawr 2023, Cofnod y Trafodion [133]

5. Barn rhanddeiliaid

139. Gan ragweld gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer y Bil, gwnaethom ysgrifennu at randdeiliaid ar 12 Hydref 2022 a'u gwahodd i rannu eu barn â ni ar y Bil. Mae'r dystiolaeth a ddaeth i law i'w gweld ar ein **gwefan**.

Adolygu cyfraith yr UE a ddargedwir

140. Dywedodd NFU Cymru y bydd penderfyniad Llywodraeth Cymru i beidio â chynnal asesiad o gyfraith yr UE a ddargedwir yn effeithio'n anghymesur ar rai portffolios, yn enwedig y rheini sy'n ymwneud â materion fel amaethyddiaeth a'r amgylchedd".⁷⁷

141. Yn ôl yr RSPCA, dylai Llywodraeth Cymru gymryd rhan lawn yng nghyd-adolygiad y DU ond mae'n rhaid iddi ffurfio barn ar bob darn o gyfraith yr UE a ddargedwir, o'i hasesiad ei hun. Dylai nodi'n glir pa agweddau ar gyfraith yr UE a ddargedwir sydd, yn ei barn hi, wedi'i datganoli gydag amserlen ar gyfer eu hystyried. Mae'n rhybuddio fel a ganlyn:

*"should this not be undertaken the Government risks leaving that decision to the UK Government which may have a different view. There have been instances in the past few years on what animal welfare legislation is devolved and what is reserved so it is important that there is not a land grab by the UK Government on legislation."*⁷⁸

142. Yn ôl y Gymdeithas Cadwraeth Forol, mae penderfyniad Llywodraeth Cymru i beidio ag adolygu cyfraith yr UE a ddargedwir, ar sail annibynnol, o bosibl yn llesteirio gallu Llywodraeth Cymru i ymateb i gynigion a wneir o dan y Bil - a herio'r cyfryw gynigion - wrth gydnabod y pwysau y byddai'n ei osod ar adnoddau Llywodraeth Cymru i wneud hynny.⁷⁹

Y machlud

143. Mae NFU Cymru wedi galw ar Lywodraeth y DU i estyn y machlud, neu gael gwared arno. Dywedodd y byddai mewn sefyllfa well i ddarparu adnoddau priodol ar gyfer adolygiad o gyfraith yr UE a ddargedwir ac i weithio'n briodol

⁷⁷ Llythyr oddi wrth NFU Cymru, 16 Tachwedd 2022

⁷⁸ Llythyr oddi wrth yr RSPCA, 17 Tachwedd, 2022 (Saesneg yn unig)

⁷⁹ Llythyr oddi wrth y Gymdeithas Cadwraeth Forol, 18 Tachwedd 2022 (Saesneg yn unig)

gyda'r Llywodraeth ar ddiwygio rheoleiddio ar ôl Brexit, heb bwysau'r machlud. Soniodd am alw sylweddol o ran adnoddau ar randdeiliaid, yn ogystal ag adrannau Llywodraeth Cymru.⁸⁰

144. Mae'r RSPCA wedi galw am estyn y dyddiad machlud fel mesur interim. Ychwanegodd ei bod yn ymddangos bod absenoldeb pwerau i Weinidogion Cymru estyn y dyddiad machlud yn cosbi'r Llywodraethau datganoledig.⁸¹

145. Ychwanegodd yr Athro Jo Hunt o Brifysgol Caerdydd nad oes cyfiawnhad clir pam nad yw'r pŵer hwnnw yn cael ei roi, hefyd – ar gyfer cyfraith o fewn cymhwysedd datganoledig – i weinidogion Llywodraeth Cymru.⁸²

146. Cytunodd y Prosiect Cyfraith Gyhoeddus â'r farn a fynegwyd gan yr RSPCA a'r Athro Hunt, o ran bod yr anghymesuredd hwn yn dresmasu diangen ar ymreolaeth sefydliadau datganoledig i reoli statws cyfraith yr UE a ddargedwir o fewn eu meysydd cymhwysedd.⁸³

147. Awgrymodd Ffederasiwn Bwyd a Diod Cymru y gallai weld budd cynefino a chydgrynhoi cyfraith yr UE a ddargedwir gan fod y DU, bellach, wedi gadael yr UE ond – yng ngeiriau'r ffederasiwn hwnnw – mae'n parhau'n aneglur pam mae angen cynnal ymarfer o'r fath mor gyflym, gyda dyddiad machlud sy'n peri pryder mawr wedi ei osod fel diwedd 2023. Gyda hyn, gallai fod yn hawdd i gamgymeriadau deddfwriaethol gael eu gwneud.⁸⁴

148. Mae Canolfan Llywodraethiant Cymru a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru hefyd wedi galw am newid neu ddileu'r cymal machlud.⁸⁵

149. Dywedodd Conffederasiwn GIG Cymru wrthym fod yna seiliau sylweddol i bryderu ynghylch yr adnoddau sydd eu hangen er mwyn cymryd camau cyn y machlud cyntaf ar 31 Rhagfyr 2023 ac na ellir caniatáu i ddarnau pwysig o ddeddfwriaeth gael eu machlud oherwydd diffyg goruchwyliaeth.⁸⁶

150. Rhybuddiodd yr Asiantaeth Safonau Bwyd, "na allwn ddirwyn i ben y deddfau ar ddiogelwch a dilysrwydd bwyd heb beri dirywiad yn safonau bwyd y DU a risg sylweddol i iechyd y cyhoedd". Er nad oedd o'r farn mai dyma oedd

⁸⁰ Llythyr oddi wrth NFU Cymru, 16 Tachwedd 2022

⁸¹ Llythyr oddi wrth yr RSPCA, 17 Tachwedd 2022

⁸² Llythyr oddi wrth yr Athro Jo Hunt, 21 Tachwedd 2022 (Saesneg yn unig)

⁸³ Llythyr gan y Prosiect Cyfraith Gyhoeddus, 18 Tachwedd 2022

⁸⁴ Llythyr oddi wrth Ffederasiwn Bwyd a Diod Cymru, 18 Tachwedd 2022

⁸⁵ Llythyr oddi wrth Ganolfan Llywodraethiant Cymru a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, 18 Tachwedd 2022

⁸⁶ Llythyr oddi wrth Conffederasiwn GIG Cymru, 17 Tachwedd 2022 (Saesneg yn unig)

bwriad Llywodraeth y DU, dywedodd wrthym ei bod yn pryderu am yr amserlen a'r angen i gynghori gweinidogion "yn gyflym iawn". Roedd yn argymhell cael bil bwyd a bwyd anifeiliaid cynhwysfawr maes o law.⁸⁷

Bylchau yn y deddfwriaeth

151. O ran bylchau deddfwriaethol, esboniodd Dr Viviane Gravey a Dr Lisa-Claire Whitten o Brifysgol Queen's Belfast fel a ganlyn:

"If, for simplicity's sake, a single UK-wide SI was taken to transpose a directive in a devolved area, then there is a real risk that if the UK Government were to revoke this piece of REUL it would do so for the whole of the UK.

*As such, it is critical that the UK government commits to not making decisions on REUL in devolved matters without the consent of the devolved administrations (and ideally, of the devolved assemblies)."*⁸⁸

152. Rhybuddiodd NFU Cymru y gallai llywodraethau ganfod eu hunain yn brwydro yn erbyn camau brysiog i gau bylchau deddfwriaethol sydd wedi agor. Byddai senario o'r fath yn niweidiol i hyder ac i sicrwydd busnes a defnyddwyr.⁸⁹

153. Mae Conffederasiwn GIG Cymru o'r farn y gallai deddfwriaeth bwysig iechyd y cyhoedd gael ei cholli'n anfwriadol oherwydd amserlen y Bil – gan gynnwys ar faeth a labelu alergenau – a safonau perfformiad allyriadau CO² ar gyfer cerbydau. Mae am gael sicrwydd y bydd deddfwriaeth sy'n effeithio ar iechyd y cyhoedd yn cael ei chadw a'i gwella, a bod Gweinidogion yn ystyried y goblygiadau hirdymor i iechyd a llesiant y boblogaeth.⁹⁰

154. Cafwyd enghreifftiau gan yr RSPCA a Chyswllt Amgylchedd Cymru fel ei gilydd o'r modd y mae Cymru'n dibynnu ar feysydd y mae Llywodraeth y DU yn gyfrifol amdanynt – a'r effaith ar Gymru os bydd hynny'n newid – er enghraifft prosiectau ynni o faint penodol, a deddfwriaeth lles anifeiliaid.⁹¹

⁸⁷ Llythyr oddi wrth yr Asiantaeth Safonau Bwyd, 18 Tachwedd 2022

⁸⁸ Llythyr oddi wrth Dr Gravey a Dr Whitten, 15 Tachwedd 2022 (Saesneg yn unig)

⁸⁹ Llythyr oddi wrth NFU Cymru, 16 Tachwedd 2022

⁹⁰ Llythyr oddi wrth Conffederasiwn GIG Cymru, 17 Tachwedd 2022

⁹¹ Llythyr oddi wrth RSPCA, 17 Tachwedd 2022, a Llythyr gan Gyswllt Amgylchedd Cymru, 18 Tachwedd 2022

155. Mae Gweithgor Cymdeithas Cyfraith Amgylcheddol y DU, Cymru yn rhybuddio y gallai meysydd cyfan o gyfraith amgylcheddol – er enghraifft gwastraff, dŵr ac ansawdd aer, cadwraeth natur a rheoleiddio cemegau – gael eu tynnu o'r llyfr statud dros nos. At hynny, dywedodd ei fod yn ystyried y bydd y dull gweithredu cyffredinol a gynigir o dan y Bil yn arwain at risg sylweddol y bydd sylwedd, yn ogystal â chydlynid cyfraith a pholisi amgylcheddol yng Nghymru (a ledled y DU) yn cael eu tanseilio a'u gwanhau.⁹²

156. Yn ôl Dr Gravey a Dr Whitten:

*“...this Bill risks making the already messy post-Brexit legal landscape even messier with reduced clarity and accessibility, and much greater intra-UK divergence, potentially overnight (at the end of 2023)”.*⁹³

157. Esboniodd y Gymdeithas Cadwraeth Forol fod perygl – yn sgil y Bil – o gael system ddwy haen ar safleoedd morol trawsffiniol, a rhoddodd enghreifftiau lle mae pwerau datganoledig a phwerau a gadwyd yn ôl yn cydberthyn ym meysydd ynni a thargedau bioamrywiaeth, lle gallai'r Bil – yng ngeiriau'r gymdeithas honno – fod â goblygiadau difrifol o ran gallu Llywodraeth Cymru i gyflawni canlyniadau ei gwaith trylwyr ar fioamrywiaeth.⁹⁴

Capasiti ac adnoddau

158. Mae NFU Cymru wedi sôn am alw sylweddol am adnoddau ar randdeiliaid – yn ogystal ag adrannau Llywodraeth Cymru – gan rybuddio bod capasiti annigonol, ynghyd â therfyn amser tynn, yn cynyddu'r risg o gamgymeriadau ac amryfusedd.⁹⁵

159. Mae Conffederasiwn GIG Cymru wedi disgrifio adolygu cyfraith yr UE a ddargedwir fel bod yn her enfawr o ran capasiti.⁹⁶

160. Yn yr un modd, dywedodd Cymdeithas Cyfraith Amgylcheddol y DU fod sifftio cyfraith yr UE a ddargedwir yn dasg anferth, a fydd yn gofyn am swm sylweddol o adnoddau.⁹⁷

⁹² Llythyr oddi wrth Gymdeithas Cyfraith Amgylcheddol y DU, 17 Tachwedd 2022

⁹³ Llythyr oddi wrth Dr Gravey a Dr Whitten, 15 Tachwedd 2022

⁹⁴ Llythyr oddi wrth y Gymdeithas Cadwraeth Forol, 18 Tachwedd 2022

⁹⁵ Llythyr oddi wrth NFU Cymru, 16 Tachwedd 2022

⁹⁶ Llythyr oddi wrth Gonffederasiwn y GIG, 17 Tachwedd 2022

⁹⁷ Llythyr oddi wrth Gymdeithas Cyfraith Amgylcheddol y DU, 17 Tachwedd 2022

Effaith ar y rhaglen ddeddfwriaethol

161. Yn ôl Dr Gravey a Dr Whitten, tra bod y Bil yn fater o flaenoriaeth i Lywodraeth y DU, nid felly yw hi i'r gweinyddiaethau datganoledig. Yn ei hanfod, dywedwyd wrthynt am atal eu cynlluniau ar gyfer 2023.⁹⁸

162. Rhybuddiodd Cyswllt Amgylchedd Cymru am oedi posibl i ddeddfwriaeth ar lywodraethiant amgylcheddol, targedau adfer natur a'r Bil Aer Glân.⁹⁹

163. Dywedodd yr Athro Jo Hunt wrthym fod y Bil yn gosod Llywodraeth Cymru yn erbyn terfyn amser nad yw wedi'i osod ei hun, lle na fydd ei rhaglen lywodraethu bresennol wedi dwyn i ystyriaeth adnoddau sydd eu hangen ar gyfer yr ymarfer hwn.¹⁰⁰

Pwerau Gweinidogol

164. Yn ôl yr Athro Jo Hunt, mae absenoldeb unrhyw ofyn i geisio cydsyniad Gweinidogion Cymru (neu'r Senedd) cyn y gall Gweinidogion Llywodraeth y DU arfer pwerau ym meysydd cymwyseddau datganoledig yn groes i ddeddfwriaeth flaenorol oedd yn ymwneud â Brexit, ac ymddengys ei fod yn afreolaidd a heb gyfiawnhad clir. Mae hi'n argymhell bod y Bil yn cael ei ddiwygio i ddarparu naill ai ar gyfer dileu pwerau gweinidogol Llywodraeth y DU o fewn meysydd cymhwysedd datganoledig, neu ar gyfer gofyniad am gydsyniad gan Lywodraeth Cymru, o leiaf, ar gyfer arfer y pwerau hyn.¹⁰¹

165. Dywedodd Canolfan Llywodraethiant Cymru a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru wrthym ei fod yn ddybryd, ar lefel gyfansoddiadol, na chafwyd ystyriaeth ar wyneb y Bil i geisio cydsyniad yr awdurdodau datganoledig wrth arfer pwerau cydredol, sy'n eang iawn yn achos y Bil hwn.¹⁰²

166. Daeth Dr Gravey a Dr Whitten i'r casgliad fod pwerau cydredol y Bil yn creu'r posibilrwydd o gymryd camau sy'n gwrthdaro o ran deddfwriaeth yr UE a ddargedwir ar lefelau llywodraeth ddatganoledig a llywodraeth ganolog fel ei gilydd ac unwaith eto, mae hyn yn amlygu'r cwestiwn allweddol o ran pwy fydd

⁹⁸ Llythyr oddi wrth Dr Gravey a Dr Whitten, 15 Tachwedd 2022

⁹⁹ Llythyr gan Gyswllt Amgylchedd Cymru, 18 Tachwedd 2022

¹⁰⁰ Llythyr oddi wrth yr Athro Jo Hunt, 21 Tachwedd 2022

¹⁰¹ Llythyr oddi wrth yr Athro Jo Hunt, 21 Tachwedd 2022

¹⁰² Llythyr oddi wrth Ganolfan Llywodraethiant Cymru a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, 18 Tachwedd 2022

yn dod i benderfyniadau ynghylch dyfodol deddfwriaeth yr UE a ddargedwir, yng Nghymru.¹⁰³

167. Yn ôl NFU Cymru:

“...the conferral of unprecedented powers on Ministers to change the regulatory landscape (with few of the usual checks and balances), coupled with revocation by default of retained EU law invites the creation of legal uncertainty and an incoherent regulatory landscape. We would instead advocate for an incremental approach to regulatory reform and the development of the law in a manner which is clear, predictable, and understood by all.”¹⁰⁴

168. At hynny, byddai'n cefnogi'r model cydredol plws ac ni fyddai'n dymuno gweld unrhyw agwedd ar gyfraith yr UE a ddargedwir yn cael ei dileu heb gynnal asesiad effaith priodol, gan gynnwys ymgynghori â rhanddeiliaid.¹⁰⁵

169. Dywedodd y Prosiect Cyfraith Gyhoeddus wrthym y byddai'r Bil yn rhoi siec wag i weinidogion i ailysgrifennu neu ddiddymu hawliau ac amddiffyniadau gwerthfawr.¹⁰⁶

170. Mae Cyswllt Amgylchedd Cymru hefyd yn teimlo'n gryf bod y pwerau gweinidogol yn lleihau prosesau craffu democrataidd.¹⁰⁷

Rôl y Senedd

171. Nododd sawl rhanddeiliad y rôl gyfyngedig a roddir i graffu seneddol yn y Bil, a galw am rôl fwy i'r Senedd.

172. Dywedodd NFU Cymru ei fod yn anghyfforddus gyda'r ffordd y mae'r Bil yn gosod arolygiaeth ddemocrataidd o newidiadau i gyfraith yr UE a ddargedwir yn nwylo Gweinidogion y DU a Chymru yn hytrach na Senedd San Steffan a Senedd Cymru. At hynny, cododd bryderon y gallai'r machlud gael ei drosoli at ddibenion lleihau prosesau craffu ar gamau gweithredu i ddiwygio neu ddisodli cyfraith yr UE a ddargedwir.¹⁰⁸

¹⁰³ Llythyr oddi wrth Dr Gravey a Dr Whitten, 15 Tachwedd 2022 (Saesneg yn unig)

¹⁰⁴ Llythyr oddi wrth NFU Cymru, 16 Tachwedd 2022

¹⁰⁵ Llythyr oddi wrth NFU Cymru, 16 Tachwedd 2022

¹⁰⁶ Llythyr gan y Prosiect Cyfraith Gyhoeddus, 18 Tachwedd 2022

¹⁰⁷ Llythyr gan Gyswllt Amgylchedd Cymru, 18 Tachwedd 2022

¹⁰⁸ Llythyr oddi wrth NFU Cymru, 16 Tachwedd 2022

173. Yn ôl yr RSPCA, dylai'r Senedd gael rôl yn y penderfyniadau a wneir ar gyfer holl gyfraith ddatganoledig yr UE a ddargedwir, a'i bod yn bwysig i'r Senedd ddidoli'r holl ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i Gymru ac sydd o fewn ei chymhwysedd. At hynny, galwodd ar Lywodraeth Cymru i gynnwys y Senedd yn llawn ac i egluro gyda Llywodraeth y DU sut y bydd yn dwyn barn y Senedd ar gyfraith yr UE a ddargedwir i ystyriaeth.¹⁰⁹

174. Dywedodd Cymdeithas Cyfraith Amgylcheddol y DU:

"...if retained EU environmental law is to be fundamentally changed, it should only be done following full and comprehensive domestic scrutiny by the Senedd in devolved areas. 'Full scrutiny' means that the Senedd will be adequately involved and there will be timely participation of relevant institutional committees, civil society and expert stakeholders".¹¹⁰

175. Yn ôl yr RSPCA, cyfnod amser tynn iawn a roddwyd i'r Senedd i ystyried cyfraith yr UE a ddargedwir ac mae hynny'n destun pryder iddynt.¹¹¹

176. Galwodd Canolfan Llywodraethiant Cymru a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru hefyd am rôl gynyddol i'r Senedd.¹¹²

177. Mae Cymdeithas Cyfraith Amgylcheddol y DU o'r farn na fydd unrhyw un o sefydliadau democrataidd y DU yn gallu ystyried cyfraith yr UE a ddargedwir yn y modd fforensig a systematig y rhagwelodd Senedd y DU a fyddai'n digwydd, pan basiodd Ddeddf 2018.¹¹³

178. Mae Dr Gravey a Dr Whitten yn cytuno, gan nodi fel a ganlyn:

"The Senedd has managed to carve a role for itself in the Brexit SIs work – an area where consent had been agreed, via the 2018 MOU on an intergovernmental basis. But the 2023 sunset, and the lack of REUL mapping from the Welsh Government create a situation in which there is likely to be a trade-off between on the one hand, parliamentary oversight of policy-

¹⁰⁹ Llythyr oddi wrth yr RSPCA, 17 Tachwedd 2022

¹¹⁰ Llythyr oddi wrth Gymdeithas Cyfraith Amgylcheddol y DU, 17 Tachwedd 2022

¹¹¹ Llythyr oddi wrth yr RSPCA, 17 Tachwedd 2022

¹¹² Llythyr oddi wrth Ganolfan Llywodraethiant Cymru a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, 18 Tachwedd 2022

¹¹³ Llythyr oddi wrth Gymdeithas Cyfraith Amgylcheddol y DU, 17 Tachwedd 2022

making and on the other hand, ensuring no single piece of REUL falls off the 2023 sunset cliff-edge by mistake, or through lack of time to restate it.”¹¹⁴

Tirwedd reoleiddiol

179. Mae'r Athro Jo Hunt o'r farn bod gan y Bil y potensial i greu nifer o effeithiau digroeso ar dirwedd reoleiddiol Cymru. Argymhellodd na ddylai'r gwaharddiad ar gynyddu beichiau rheoleiddiol fod yn gymwys i gyfreithiau a wneir gan y deddfwrfeydd datganoledig a Gweinidogion o fewn cymhwysedd datganoledig.¹¹⁵

180. Dywedodd Canolfan Llywodraethiant Cymru a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru wrthym fod y pwerau yng nghymal 15 wedi'u drafftio'n glir gyda dadreoleiddio mewn golwg, a gwnaethant ddisgrifio diffiniad y Bil o'r 'baich rheoleiddiol' (*'regulatory burden'*) fel un hynod eang.¹¹⁶

181. Dywedodd yr Asiantaeth Safonau Bwyd:

“...we will not compromise food safety or standards. We will also continue to emphasise the value of regulation to support business, to support trade, to encourage innovation, investment and growth.”¹¹⁷

182. Dywedodd Ffederasiwn Bwyd a Diod Cymru fod hyd a lled effaith y Bil, o bosibl, o natur arwyddocaol iawn i'r gadwyn gyflenwi bwyd a diod yng Nghymru a bod gan y Bil y potensial i lywio gwahaniaethau sylweddol os na cheir newidiadau wedi'u halinio ar sail y DU ac y byddai hynny, wedyn, yn gosod beichiau ychwanegol ar fusnesau Cymru, yn enwedig mentrau llai.¹¹⁸

183. Rhybuddiodd Cyswllt Amgylchedd Cymru fod cyfeiriad dadreoleiddio'r Bil yn peryglu amddiffyniadau a safonau hanfodol. Yn ôl Cyswllt Amgylchedd Cymru, nid yw hyn yn cyd-fynd a deddfwriaeth bresennol yng Nghymru, er enghraifft Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Yn eu barn hwy, gallai'r Bil nid yn unig dawelu uchelgais ar gyfer gwella, ond gwanhau'r safonau presennol mewn ffordd sy'n cyferbynnu'n uniongyrchol â pholisi Llywodraeth Cymru.¹¹⁹

¹¹⁴ Llythyr oddi wrth Dr Gravey a Dr Whitten, 15 Tachwedd 2022 (Saesneg yn unig)

¹¹⁵ Llythyr oddi wrth yr Athro Jo Hunt, 21 Tachwedd 2022

¹¹⁶ Llythyr oddi wrth Canolfan Llywodraethiant Cymru a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, 18 Tachwedd 2022

¹¹⁷ Llythyr oddi wrth yr Asiantaeth Safonau Bwyd, 18 Tachwedd 2022

¹¹⁸ Llythyr oddi wrth Ffederasiwn Bwyd a Diod Cymru, 18 Tachwedd 2022

¹¹⁹ Llythyr gan Gyswllt Amgylchedd Cymru, 18 Tachwedd 2022

184. Cytunodd NFU Cymru fod y Bil yn cynrychioli terfyn rheoleiddiol ond ychwanegodd fod yn rhaid i safonau uchel gael eu gwobrwyo'n briodol o'r farchnad, neu fel arall bydd cynhyrchwyr Cymru yn cael eu gosod o dan anfantais gystadleuol. Anogodd Llywodraeth Cymru i weithio gyda llywodraethau eraill i eirioli safonau uchel a gwrthsefyll ras i'r gwaelod.¹²⁰

185. Cytunodd Conffederasiwn GIG Cymru fod y Bil yn dangos ffafriaeth gref tuag at ddadreoleiddio, hyd yn oed lle gallai hynny ymwneud â meysydd o bryder iechyd y cyhoedd. Tynnodd sylw hefyd at 'rwystro' elfennau ar ddeddfwriaeth ac uchelgais Cymru, er enghraifft Cymru Iachach a *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015*.¹²¹

186. Dywedodd yr RSPCA wrthym y gallai cyfraith yr UE a ddargedwir sy'n cynnwys rhai o'r newidiadau mwyaf totemig a phwysig ym maes lles anifeiliaid oll fod mewn perygl. Cododd y posibilrwydd o ehangiad mawr o ran safonau rhwng gwledydd y DU, o ganlyniad i'r Bil.¹²²

187. Gwnaeth Cymdeithas Cadwraeth y Môr gynnig y dylai fod gan Lywodraeth Cymru yr hawl i roi feto ar newidiadau a fyddai'n arwain at ostwng safonau.¹²³

Fframweithiau cyffredin a Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020

188. O ran dull y Bil, dywedodd yr Athro Jo Hunt nad yw'n gwneud dim i gefnogi dulliau mwy cydweithredol o lywodraethu, er enghraifft drwy'r broses fframweithiau cyffredin. Dywedodd hefyd:

"...there is no acknowledgement in the Bill of the fact that the existing regulations that fall within the scope of the powers to restate, revoke or replace, may form part of a framework [...] None of the powers under the Bill come with a trigger for the frameworks process to be engaged. The approach of the Bill risks undermining the frameworks process".¹²⁴

¹²⁰ Llythyr oddi wrth NFU Cymru, 16 Tachwedd 2022

¹²¹ Llythyr oddi wrth Gonffederasiwn GIG Cymru, 17 Tachwedd 2022

¹²² Llythyr oddi wrth yr RSPCA, 17 Tachwedd 2022

¹²³ Llythyr oddi wrth y Gymdeithas Cadwraeth Forol, 18 Tachwedd 2022

¹²⁴ Llythyr oddi wrth yr Athro Jo Hunt, 21 Tachwedd 2022

189. Mae Canolfan Llywodraethiant Cymru a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru o'r farn bod fframweithiau cyffredin yn annhebygol o fod yn fecanwaith digonol i reoli lefel yr aflonyddwch a allai godi.¹²⁵

190. Yn ôl yr RSPCA y byddai'r Bil yn gwrthdaro â fframweithiau cyffredin, ac mae'r mudiad yn cwestiynu sut y bydd yn gweithio ochr yn ochr â Deddf y Farchnad Fewnol. Dywedodd fod goblygiadau mawr i'r Bil o ran y modd y mae cynhyrchion yn cael eu cynhyrchu a'u symud o fewn Prydain Fawr, ac nad yw'n glir sut y mae'n gweithio gyda'r rhaglen Fframweithiau Cyffredin a Deddf y Farchnad Fewnol, gan gynnwys mewn meysydd lle mae Llywodraeth Cymru eisiau gwella safonau. At hynny, nododd nad yw'n glir sut y bydd anghydfodau rhwng y llywodraethau ynghylch cyfraith yr UE a ddargedwir yn cael eu datrys.¹²⁶

191. Nododd Cymdeithas Cyfraith Amgylcheddol y DU, NFU Cymru, Cyswllt Amgylchedd Cymru a Chonffederasiwn GIG Cymru i gyd y gallai'r Bil effeithio ar fframweithiau cyffredin, ac nad yw'n glir sut y gallai Deddf y Farchnad Fewnol effeithio ar benderfyniadau llywodraethau'r DU i ddefnyddio dulliau gwahanol o ymdrin â chyfraith yr UE a ddargedwir mewn meysydd datganoledig.

192. At hynny, roedd Cyswllt Amgylchedd Cymru yn cwestiynu'r effaith ar allu Llywodraeth Cymru i gynnal safonau uwch na Llywodraeth y DU.¹²⁷

Effaith ar hawliau

193. Esboniodd Canolfan Llywodraethiant Cymru a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru fod yr asesiad o effaith y Bil ar gydraddoldeb a hawliau dynol yn nodi bod perygl y bydd amddiffyniadau gwrth-wahaniaethu a chyfraith yr UE a ddargedwir sy'n berthnasol i Hawliau'r Confensiwn yn cael eu dal gan fecanwaith machlud, ac y byddai gofynion presennol i liniaru hyn yn cael eu dileu gan y Bil Hawliau, fel y'i drafftwyd.¹²⁸

194. Dywedodd y Prosiect Cyfraith Gyhoeddus wrthym, yn ogystal â bod hawliau'n wynebu bod ar ymyl y dibyn o ganlyniad i'r machlud cyntaf, fod pwerau

¹²⁵ Llythyr oddi wrth Ganolfan Llywodraethiant Cymru a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, 18 Tachwedd 2022

¹²⁶ Llythyr oddi wrth yr RSPCA, 17 Tachwedd 2022

¹²⁷ Llythyr gan Gyswllt Amgylchedd Cymru, 18 Tachwedd 2022

¹²⁸ Llythyr oddi wrth Ganolfan Llywodraethiant Cymru a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, 18 Tachwedd 2022

Gweinidogol y Bil yn siec wag ar gyfer ailysgrifennu neu ddiddymu hawliau ac amddiffyniadau gwerthfawr.¹²⁹

195. Ysgrifennodd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ("y Comisiwn") atom ar 9 Chwefror 2023 gan dynnu ein sylw at yr hyn y maent yn ei ddisgrifio fel goblygiadau sylweddol y Bil ar gydraddoldeb a hawliau dynol, ac effaith sylweddol ar y cyfryw hawliau.¹³⁰

196. Cafwyd enghreifftiau gan y Comisiwn o hawliau a ddiogelir gan gyfraith yr UE a ddargedwir, er enghraifft deddfwriaeth ar absenoldeb rhiant, gwyliau blynyddol â thâl, hawliau i weithwyr rhan-amser, uchafswm oriau ar gyfer gyrwyr cerbydau nwyddau trwm a hawliau eraill ym maes cyflogaeth. Mae'r Comisiwn yn nodi y gallai'r Bil, hefyd, effeithio ar gyfreithiau ar hawliau sylfaenol i ffoaduriaid, safonau ar gyfer trin ffoaduriaid, amddiffyniadau i blant sy'n dystion mewn achosion o droseddau rhywiol, ceiswyr lloches a phobl sydd wedi'u dadleoli, a mesurau i gefnogi mynediad pobl anabl at deithiau trên ac awyr.

197. Mae'n nodi sut y gallai'r Bil gael effaith negyddol anghymesur ar fenywod oherwydd bod yr hawliau gweithwyr sydd mewn perygl – er enghraifft tâl mamolaeth a chyflog cyfartal, ac absenoldeb rhiant – yn effeithio'n anghymesur ar fenywod. At hynny, mae'r Comisiwn yn nodi y gallai hefyd fod effeithiau economaidd negyddol os caiff gallu menywod i gymryd rhan yn y farchnad lafur ei erydu.

198. Mae'n rhybuddio ymhellach ei bod yn bosibl, hefyd na fydd digon o amser i Lywodraeth y DU gydymffurfio â'i goblygiadau cyfreithiol mewn perthynas â phob un o eitemau Deddfwriaeth yr UE a ddargedwir o dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y sector Cyhoeddus yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i adrannau - wrth ystyried newidiadau i'r gyfraith - roi sylw dyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth, hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rheini nad ydynt yn gwneud, a meithrin cysylltiadau da rhwng grwpiau o bobl.

199. Mae'r Comisiwn yn nodi bod gan awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru a'r Alban ddyletswyddau penodol o dan *Ddeddf Cydraddoldeb 2010* i gynorthwyo i

¹²⁹ Llythyr gan y Prosiect Cyfraith Gyhoeddus, 18 Tachwedd 2022

¹³⁰ Papur briffio gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ar gyfer Ail Ddarlleniad y Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) yn Nhŷ'r Arglwyddi, Chwefror 2023 (Saesneg yn unig)

gydymffurfio â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus. Mae'n mynegi pryder fel a ganlyn:

"...the volume and speed of changes required by the Bill will make it hard for devolved governments and public bodies in Wales and Scotland to comply with the law such as by publishing equality impact assessments. This risks regression in equality and human rights standards".

200. Ymhlith argymhellion eraill, mae'r Comisiwn yn galw am ddiwygio'r Bil er mwyn sicrhau bod gwaith craffu effeithiol yn cael ei gynnal ar unrhyw reoliadau a allai arwain at newidiadau i'r hyn sy'n amddiffyn cydraddoldeb a hawliau dynol.

6. Ystyriaeth y Pwyllgor

201. Gwnaethom ystyried y Memorandwm ar 5 Rhagfyr 2022, Memorandwm Rhif 2 ar 16 Ionawr 2023, a Memorandwm Rhif 3 ar 13 Chwefror 2023¹³¹.

202. Rydym yn defnyddio'r dystiolaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a chan randdeiliaid yn y paragraffau a ganlyn, wrth inni nodi ein casgliadau ar y Bil, a memoranda cydsyniad deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer y Bil.

203. Mae ein gwaith craffu, o raid, nid yn unig wedi ystyried y Memoranda eu hunain ond hefyd – yn sgil natur y Bil – wedi ystyried effaith bosibl y Bil a dull gweithredu Llywodraeth Cymru. Y rheswm dros hynny yw'r pwerau sylweddol ac eithriadol o eang sy'n cael eu darparu i Weinidogion Cymru, pe bai'r Bil yn dod yn gyfraith.

204. Cytunwyd ar ein hadroddiad ar 13 Chwefror 2023.

205. Mae'r safbwyntiau a nodir yn y paragraffau canlynol, mewn mannau, yn farn mwyafrif y Pwyllgor. Lle nad yw barn yn cael ei rhannu gan y Pwyllgor cyfan, mae datganiad yn cydnabod y ffaith honno wedi'i gynnwys.

206. Pe bai'r Bil yn mynd rhagddo – er gwaethaf ein pryderon ni a nifer o bobl eraill – diben yr argymhellion a nodir gennym yn y bennod hon yw cyflawni gwelliannau pwysig i'r Bil.

Y Bil

Ein barn ni

Y machlud

207. Rydym yn cydnabod y gallai llywodraethau'r DU benderfynu ailedrych ar gyfraith yr UE a ddargedwir wrth iddynt ddatblygu polisiau a strategaethau newydd ar ôl i'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd. Yn wir, nodwn fod ambell randdeiliad wedi rhoi enghreifftiau inni o feysydd polisi lle byddai adolygiad tymor hwy o gyfraith yr UE a ddargedwir - yn dilyn ymgynghoriad ystyrlon - yn synhwyrol a/neu'n ddymunol.

¹³¹ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 13 Chwefror 2023

208. Fodd bynnag, rydym o'r farn nad yw'r system a ragwelir gan y Bil yn caniatáu ar gyfer y dull ymgynghorol, ystyriol a phwrpasol sydd ei angen ar adolygiad o'r fath. Dyma farn fwyafrifol y Pwyllgor.

209. Nid ydym wedi cael unrhyw dystiolaeth i'r perwyl bod angen machlud cyfraith yr UE a ddargedwir ar 31 Rhagfyr 2023, er ein bod yn cydnabod efallai y bydd Llywodraeth y DU am ddod â'r mater hwn i ben erbyn diwedd tymor presennol Senedd y DU.

210. Mae'n ymddangos i ni fod rhanddeiliaid – ar draws ystod o sectorau – yn unedig yn eu pryder dwfn ynghylch machlud cyfraith yr UE a ddargedwir. Rydym yn pryderu am eu rhybuddion y byddai'r dyddiad machlud cyntaf yn gosod pwysau sylweddol ar eu hadnoddau – yn ogystal â'r pryderon ynghylch capasiti ac adnoddau a godwyd ar gyfer Llywodraeth Cymru a'r Senedd – a allai arwain at gamgymeriadau digymell neu anfwriadol.

211. Cyn cyflwyno adroddiad ffurfiol i'r Senedd ar femoranda cydsyniad deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer y Bil, gwnaethom y penderfyniad i ysgrifennu at Lywodraeth y DU ar 21 Rhagfyr 2022.¹³² Gwnaethom annog Llywodraeth y DU i wrando ar rhanddeiliaid ac ailystyried y dyddiad machlud ar 31 Rhagfyr 2023 sydd yn y Bil. Hyd yn hyn, nid oes ymateb gan Lywodraeth y DU wedi dod i law.

212. Mae mwyafrif y Pwyllgor o'r farn a ganlyn:

- bydd unrhyw ddyddiad machlud – ni waeth beth fo'r dyddiad hwnnw – yn peri problemau [mawr] i lywodraethau, rhanddeiliaid a deddfwrfeydd y DU;
- nid yw'r dystiolaeth bod angen dyddiad machlud o gwbl yn argyhoeddiadol;
- dylid adolygu cyfraith yr UE a ddargedwir fesul achos;
- dylid dileu'r dyddiad machlud, 31 Rhagfyr 2023, o'r Bil.

213. Os yw darpariaeth machlud i aros yn y Bil, rydym yn cytuno â rhanddeiliaid nad oes unrhyw reswm amlwg a chanfyddadwy pam nad yw'r pŵer i estyn y machlud – a roddwyd i Weinidogion y DU gan gymal 2 o'r Bil – wedi'i roi i

¹³² Llythyr at y Gwir Anrh. Grant Shapps AS, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol, a Nusrat Ghani AS, y Gweinidog dros Ddiwydiant a Diogelwch Buddsoddiadau, 21 Rhagfyr 2022

Weinidogion Cymru'n ogystal, mewn perthynas â materion datganoledig. Dyma farn fwyafrifol y Pwyllgor.

214. Rydym yn nodi y byddai ail ddyddiad machlud y Bil – sef 23 Mehefin 2026 – yn cyflwyno materion sy'n unigryw i'r seneddau datganoledig, i'r graddau y cynhelir etholiadau nesaf y Senedd ym mis Mai 2026. Mae hyn yn lleihau ymhellach yr amser cyfyngedig sydd ar gael cyn yr ail fachlud ar gyfer y Senedd ac ar gyfer Llywodraeth Cymru, o ystyried y tebygolrwydd y bydd y Chweched Senedd yn cael ei diddymu ar ddechrau mis Ebrill 2026. Mae hyn yn codi nifer o faterion gan gynnwys, yn dilyn yr etholiad, efallai na fydd pwyllgorau'r Seithfed Senedd wedi'u cyfansoddi mewn pryd i gyflawni'r dyletswyddau sifftio o dan y Bil yn union cyn y machlud.

Argymhelliad 1. Dylid dileu'r dyddiad machlud, 31 Rhagfyr 2023, o'r Bil.

Argymhelliad 2. Os bydd y dyddiad machlud ar 31 Rhagfyr 2023 yn parhau yn y Bil, dylid diwygio'r Bil fel bod y pŵer yng nghymal 2 i estyn y dyddiad machlud hefyd yn cael ei roi i Weinidogion Cymru mewn perthynas â materion datganoledig.

215. Mae argymhellion 1 a 2 yn argymhellion a wnaed gan fwyafrif y Pwyllgor.

Argymhelliad 3. Os yw'r dyddiad machlud ar 23 Mehefin 2026 yn parhau yn y Bil, dylai Llywodraeth Cymru, fel mater o frys, godi mater unigryw etholiad Senedd 2026 – a'r ffaith ei fod yn gwrthdaro â'r dyddiad machlud ar 23 Mehefin 2026 – gyda Llywodraeth y DU.

Argymhelliad 4. Os yw'r dyddiad machlud ar 23 Mehefin 2026 yn parhau yn y Bil, dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod cyfnod diddymu'r Senedd cyn etholiad y Seithfed Senedd yn cael ei gynnwys yn y broses gynllunio hirdymor, ar gyfer yr holl reoliadau y gallai fod angen eu gwneud cyn y dyddiad machlud hwnnw.

Argymhelliad 5. Os bydd y dyddiad machlud ar 23 Mehefin 2026 yn parhau yn y Bil, dylai'r Pwyllgor Busnes, wrth baratoi ar gyfer y Seithfed Senedd, sicrhau bod ei olynydd yn ymwybodol y bydd angen rhoi blaenoriaeth i sefydlu pwyllgor priodol ar fyrder, fel bod modd ystyried rheoliadau a wneir cyn y dyddiad machlud hwnnw. Ymhellach, efallai y bydd angen cynnal Cyfarfodydd Llawn er mwyn i Aelodau'r Seithfed Senedd newydd ystyried unrhyw reoliadau sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft, a phleidleisio yn eu cylch.

216. Mae argymhellion 3, 4 a 5 yn argymhellion a gymeradwywyd gan y Pwyllgor cyfan.

Nodi cyfraith yr UE a ddargedwir

217. Mae'n amlwg bod mesur cyfraith yr UE a ddargedwir a'i heffeithiau yn cyflwyno heriau enfawr i bob llywodraeth, deddfwrfa a rhanddeiliad, a bod angen mabwysiadu dull ystyriol o weithredu.

218. Mae'r ymdrechion, hyd yn hyn, i nodi cyfraith yr UE a ddargedwir yn dangos cymaint yw hyd a lled y dasg hon, a'r risg y bydd gwallau a bylchau deddfwriaethol sylweddol wrth i'r Bil fynd rhagddo.

219. Rydym yn nodi bod Pwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi yn ei adroddiad ar y Bil a gyhoeddwyd ar 2 Chwefror 2023, wedi dweud:

*"The scale of the task, both in terms of cataloguing a definitive list of relevant legislation and the deadline by which it has to be achieved, as a result of the sunset provisions is extraordinary and deeply troubling. The work is still ongoing, and we remain wholly unconvinced that there is not a significant risk of inadvertent omission and that some pieces of REUL will fall by accident."*¹³³

Casgliad 1. Fel Pwyllgor y Senedd sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am graffu ar is-ddeddfwriaeth – ac fel y Pwyllgor sy'n chwarae rhan eang wrth geisio asesu a gwella cyfraith Cymru – ni allwn or-ddweud ein pryderon ynghylch yr effaith y gallai'r Bil hwn ei chael ar sicrwydd ac ansawdd y gyfraith fel y mae'n gymwys yng Nghymru.

220. Mae'n destun pryder i ni nad yw dangosfwrdd cyfraith yr UE a ddargedwir, gan Lywodraeth y DU yn nodi cyfraith yr UE a ddargedwir mewn meysydd datganoledig, nac ychwaith yn cynnwys cyfraith yr UE a ddargedwir a wneir gan y llywodraethau datganoledig. Rydym yn cydnabod bod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i rannu ei rhestr ei hun o gyfraith yr UE a ddargedwir yng Nghymru cyn gynted â phosibl.

221. Rydym yn cydnabod bod Llywodraeth y DU, ar 30 Ionawr 2023, wedi diweddarau'r dangosfwrdd i nodi graddau tiriogaethol cyfraith yr UE a ddargedwir sydd ar y dangosfwrdd. Fodd bynnag, nid yw graddau tiriogaethol yr un fath ag a yw mater yn effeithio ar gymhwysedd datganoledig. Rydym yn pryderu, felly, y

¹³³ Pwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi, ~~28ain Adroddiad Sesiwn 2022-23~~, 2 Chwefror 2023, paragraff 28 (Saesneg yn unig)

gallai gwybodaeth o'r fath beryglu dryswch neu, ar y gwaethaf, gamarwain Aelodau Senedd y DU sydd wrthi'n cynnal gwaith craffu ar y Bil.

222. O ystyried yr angen am ddeddfu da a sicrwydd ar gyfer y llyfr statud – ar draws y DU ac nid i Gymru yn unig – ni allwn ddeall sut y cafodd Bil a fyddai'n machlud cyfraith yr UE a ddargedwir ei gyflwyno gan Lywodraeth y DU, cyn iddi fod yn sicr o'r hyn sy'n bodoli o ran cyfraith yr UE a ddargedwir. Dyma farn fwyafrifol y Pwyllgor.

Argymhelliad 6. Rydym yn cefnogi galwad Llywodraeth Cymru ar ddangosfwrdd Llywodraeth y DU i nodi sut y mae pob darn o gyfraith yr UE a ddargedwir yn syrthio ar draws cymwyseddau a gedwir yn ôl, a chymwyseddau datganoledig.

Argymhelliad 7. Dylai Llywodraeth Cymru rannu ei rhestr ei hun o gyfraith yr UE a ddargedwir yng Nghymru gyda'n Pwyllgor a chyda Llywodraeth y DU cyn gynted â phosibl.

Argymhelliad 8. Dylai Llywodraeth Cymru ofyn i gyfraith yr UE a ddargedwir yng Nghymru gael ei hychwanegu at y dangosfwrdd.

Pwerau Gweinidogol

223. Nid ydym wedi gweld unrhyw dystiolaeth fod angen pwerau gweithredol trosfwaol eithriadol o eang ar y DU nac ar Weinidogion Cymru er mwyn cadw, diwygio neu ddileu cyfraith yr UE a ddargedwir heb oruchwyliaeth briodol a chyfansoddiadol gymwys gan ddeddfwrfeydd.

224. Rydym yn cydnabod bod rhanddeiliaid wedi galw'n benodol i'r Senedd gael mwy o rôl o ran goruchwyllo pwerau pan fydd Gweinidogion Cymru yn eu harfer.

225. Rydym yn nodi ymhellach fod gwelliannau i gynyddu'r oruchwyliaeth ddeddfwriaethol o bwerau yn y Bil wedi denu cefnogaeth drawsbleidiol.¹³⁴

226. At hynny, mae'n ymddangos i ni fod beirniadaeth Llywodraeth Cymru o ehangder y pwerau a roddir i Weinidogion y DU yn gymwys yr un mor hawdd a chyfartal i'r pwerau hynny a roddir yn y Bil i Weinidogion Cymru.

227. Yn wir, nodwn fod datganiad y Cwnsler Cyffredinol ei hun yn dweud bod y pwerau a ddirprwyir i Weinidogion yn y Bil yn bwerau na fyddech, o dan amgylchiadau arferol, yn dymuno eu rhoi i lywodraethau.

¹³⁴ Hansard, 18 Ionawr 2023, Colofn 431

228. Mae'n destun siom inni, felly, pan wnaethom ofyn yn benodol i'r Cwnsler Cyffredinol a oedd wedi gwneud cais i'r Bil gael ei ddiwygio i godi'r gweithdrefnau craffu sydd ynghlwm wrth y pwerau – os a phryd y cânt eu harfer gan Weinidogion Cymru – na wnaeth roi ateb boddhaol.

229. I'r gwrthwyneb, yr ymateb a gawsom oedd y byddai'n rhaid i Lywodraeth Cymru arfer y pwerau a roddir i Weinidogion Cymru, ac na fyddai arfer y pwerau yn debygol o ddarparu digon o amser ar gyfer ymgynghori'n effeithiol ar addasiadau arfaethedig i gyfraith yr UE a ddargedwir, a allai arwain at faterion nas nodwyd ac effeithiau negyddol posibl, er enghraifft ar grwpiau gwarchodedig.¹³⁵ Mae'r ymateb hwn yn destun gofid, yn bennaf oherwydd ein bod yn ystyried mai annerbyniol yw gwybod bod effeithiau negyddol posibl ar grwpiau gwarchodedig. Trafodir effaith y Bil ar hawliau, egwyddorion a'r llysoedd yn ddiweddarach yn y Bennod hon.

230. Mae'n destun gofid, hefyd, nad yw pryderon a fynegwyd gan Lywodraeth Cymru wedi'u sianelu i geisio rôl gryfach i'r Senedd. Rydym o'r farn y byddai cam o'r fath yn cael ei gefnogi a'i groesawu gan randdeiliaid ac Aelodau o'r Senedd.

231. Serch hynny, nid ydym yn ei ystyried yn briodol bod Gweinidogion Cymru yn cael eu rhoi dan anfantais ac o dan fwy o bwysau gan ddarpariaethau'r Bil, sy'n rhoi pwerau gwahanol i Weinidogion Cymru o'u cymharu â Gweinidogion y DU. O ystyried bod y pŵer i estyn y dyddiad machlud yn bŵer a roddir i Weinidogion y DU yn unig, mae'n bosibl ei fod yn golygu y bydd yn ofynnol i Lywodraeth Cymru naill ai weithredu'n gyflymach fyth na'i chymheiriaid yn Llywodraeth y DU, y bydd hi'n gwbl ddibynnol ar Weinidogion y DU ar gyfer estyniadau i'r machlud, neu ni fydd ganddi unrhyw ddewis heblaw cynyddu eu dibyniaeth ar Weinidogion y DU i weithredu mewn meysydd datganoledig. Gellid osgoi pob un o'r sefyllfaoedd hyn, ac fe ddylid eu hosgoi.

232. At hynny, rydym o'r farn ei bod yn gwbl amhriodol i'r Bil gynnwys pwerau cydredol¹³⁶.

233. Er ein bod yn rhannu pryderon y Cwnsler Cyffredinol ynghylch cynnwys pwerau cydredol yn y Bil, ni fyddem ychwaith yn ystyried ei bod yn ddigon pe bai'r Bil yn cael ei ddiwygio i ddarparu ar gyfer darpariaeth gydredol plws, lle byddai'n ofynnol i Weinidogion y DU ofyn am gydsyniad Gweinidogion Cymru cyn i bwerau

¹³⁵ Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, 19 Ionawr 2023, ymateb i gwestiwn 12

¹³⁶ Mae ddiffiniadau o bwerau cydredol a chydredol plws (wedi'u cymryd o ganllawiau i staff Llywodraeth Cymru) ar gael yn y [llythyr oddi wrth y Gweinidog Newid Hinsawdd](#), 6 Awst 2021

gael eu harfer mewn meysydd datganoledig. Mae rôl gydsynio i Weinidogion Cymru, unwaith eto, yn osgoi rôl y Senedd.

234. Mae'r cyfuniad o swyddogaethau cydredol a phwerau Harri VIII yn y Bil yn golygu y gallai Gweinidogion y DU – heb gydsyniad – arfer eu pwerau gwneud rheoliadau i ddiwygio Deddfau'r Senedd a rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru. Nid ydym o'r farn bod hyn yn dderbyniol.

Casgliad 2. Fel un o bwyllgorau'r Senedd, rydym yn bryderus iawn nad yw darpariaethau'r Bil yn ymgysylltu'n ddigonol nac yn cydnabod rôl deddfwrfa mewn democratiaeth seneddol.

235. Fel Pwyllgor y Senedd sydd â chyfrifoldeb cyffredinol dros fonitro'r defnydd o bwerau dirprwyedig mewn deddfwriaeth sylfaenol, rydym yn gyson yn amlygu ac yn mynegi amheuan ynghylch rhoi pwerau gweithredol eang, yn arbennig felly pwerau Harri VIII ac yn enwedig pan fo'r pwerau Harri VIII hynny yn caniatáu ar gyfer diwygio unrhyw ddeddfiad. Mae'r ffaith bod y Bil yn cynnwys pwerau o'r fath yn atgyfnerthu ein barn bod y Bil yn ddifrifol o ddifffgiol o ran goruchwyliaeth briodol a chyfansoddiadol dderbyniol gan y deddfwrfeydd o gamau gweithredol.

236. Ar 2 Chwefror 2023, cyhoeddodd Pwyllgor Pwerau Dirprwyedig a Diwygio Rheoleiddio Tŷ'r Arglwyddi ei adroddiad ar y Bil.¹³⁷ Mae'r pwyllgor hwnnw wedi disgrifio'r pwerau a roddwyd i Weinidogion gan y Bil fel rhai sydd hyd yn oed yn fwy arwyddocaol¹³⁸ na'r pwerau sydd wedi'u cynnwys yn Neddf 2018 – Bil a gafodd ei feirniadu'n llym, hefyd, gan bwyllgorau seneddol ledled y DU yn sgil cynnwys pwerau gweithredol eang. Nodwn fod Pwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi yn rhannu'r farn hon.¹³⁹

237. Dylai'r ffaith bod y Pwyllgor Pwerau Dirprwyedig a Diwygio Rheoleiddio – fel Pwyllgor Seneddol y DU sy'n gyfrifol am adrodd ar ba un a yw darpariaethau unrhyw un o Filiau'r DU yn dirprwyo pŵer deddfwriaethol yn amhriodol – wedi disgrifio'r Bil fel un amlinellol iawn neu “*hyper-skeletal*” fod yn rhybudd dwys.¹⁴⁰

¹³⁷ Pwyllgor Pwerau Dirprwyedig a Diwygio Rheoleiddio Tŷ'r Arglwyddi, 25ain Adroddiad Sesiwn 2022-23, 2 Chwefror 2023

¹³⁸ Y Pwyllgor Pwerau Dirprwyedig a Diwygio Rheoleiddio, 25ain Adroddiad Sesiwn 2022-23, paragraff 7

¹³⁹ Y Pwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth, 28ain Adroddiad Sesiwn 2022-23, 2 Chwefror 2023, paragraff 11

¹⁴⁰ Y Pwyllgor Pwerau Dirprwyedig a Diwygio Rheoleiddio, 25ain Adroddiad Sesiwn 2022-23, paragraff 63

238. Nodwn y sylwadau a ganlyn a gynigiwyd gan y Pwyllgor Pwerau Dirprwyedig a Diwygio Rheoleiddio ym mharagraffau 9 a 10 o'i adroddiad:

"The Bill is sufficiently lacking in substance not even to be described as "skeletal". It is a mechanism that gives Ministers the power to decide what becomes of whole swathes of UK law deriving from our membership of the EU. Ministers, not Parliament, will be responsible for determining what stays, what goes and what, if anything, is to replace what goes.

We criticise wide regulation-making powers in Bills covering just one policy area. Here we have very wide powers to make provision across multiple policy areas. If we were considering an open-ended delegated power in, say, an Employment Bill allowing Ministers to re-write the law on working time, we would express concern. This Bill is tantamount to creating scores of such powers."

239. Rydym yn cydnabod ymhellach fod y Pwyllgor Pwerau Dirprwyedig a Diwygio Rheoleiddio wedi gwneud yr argymhellion a ganlyn:

- Mae'r pwerau a roddir gan gymal 1(2) – o'u darllen gyda chymal 1(1) – yn amhriodol a dylid eu dileu o'r Bil.
- Mae'r pŵer yng nghymal 2(1) o'r Bil yn haeddu craffu ar y weithdrefn gadarnhaol.
- Dylid tynnu cymal 10 o'r Bil. Mae'r argymhelliad yn nodi y dylid gwneud hyn oherwydd y canlynol: *"It is an unacceptable interference with the position in the European Union (Withdrawal) Act 2018 that substantial policy changes should be for Parliament to decide in primary legislation rather than for Ministers to decide in secondary legislation"*.
- Dylid dileu cymalau 12 a 13 o'r Bil oherwydd eu bod yn dirprwyo pŵer deddfwriaethol yn amhriodol a dylai eu heffeithiau, yn lle hynny, berthyn i'r Senedd a chael eu cyflawni mewn deddfwriaeth sylfaenol benodol o ran pwnc.
- Mae cymal 15 yn dirprwyo pŵer deddfwriaethol yn amhriodol a dylid ei dynnu o'r Bil, am y rheswm a ganlyn *"...[it] gives Ministers an extraordinarily wide discretion to revoke and replace secondary REUL merely where Ministers regard it as appropriate to do so" and it*

“contravenes the commitment given at the time of the 2018 Act, a commitment that was enshrined in section 8 of the 2018 Act, that substantial policy changes to REUL should be for Parliament in primary legislation rather than for Ministers in secondary legislation”.

Casgliad 3. Mae'r Bil yn galluogi anghydbwysedd pŵer annerbyniol rhwng y weithrediaeth a'r ddeddfwrfa. Rydym yn cefnogi galwadau'r Pwyllgor Pwerau Diwygiedig a Diwygio Rheoleiddio ac eraill i ddileu'r pwerau Gweinidogol diderfyn a diangen o'r Bil.

Effaith gyfansoddiadol

240. Yr hyn sy'n destun pryder dirfawr i ni, fel deddfwyr a chynrychiolwyr y ddeddfwrfa yw'r ffaith y byddai'r Bil yn galluogi Gweinidogion, yn hytrach na seneddau, i newid tirwedd reoleiddiol a chyfreithiol y DU yn sylweddol.

241. Rydym yn nodi gyda diddordeb, ac yn cytuno â'r sylwadau a ganlyn a wnaed gan y Pwyllgor Pwerau Dirprwyedig a Diwygio Rheoleiddio ym mharagraffau 2 a 3 o'i adroddiad:

“According to the Memorandum (page 1) the main purpose of the Bill is twofold: “to remove the precedence given to retained EU law (“REUL”) in the UK statute book and to firmly re-establish our Parliament as the principal source of law in the UK, restoring the primacy of Acts of Parliament in UK statute.

The second purpose has not been achieved by this Bill. Far from Parliament being restored to a place of primacy in relation to REUL, the Bill gives Ministers extraordinary powers exercised by statutory instrument to dispose of, retain or rewrite REUL—including powers that involve significant and contentious policy issues. The Bill contradicts pledges by the Government since 2018 that Parliament would be the agent of substantive policy change in these areas. After all, the principal constitutional argument for Brexit was that Parliament in primary legislation would make laws rather than the institutions of the EU. Instead, the Bill is full of law-making powers in relation to REUL that are given to Ministers to exercise by statutory instrument.”

242. Hyd yn oed pe byddem wedi cael ein darbwyllo o'r angen am bwerau gweithredol newydd i fynd i'r afael â chyfraith yr UE a ddargedwir sy'n bodoli ar ein llyfr statud, mae Llywodraeth y DU – drwy'r Bil – yn gofyn i Senedd y DU a'r

deddfwrfeydd datganoledig lofnodi siec wag, oherwydd na all Llywodraeth y DU na Lywodraeth Cymru fel ei gilydd nodi cyfraith yr UE a ddargedwir yn llwyddiannus a chyda hyder. Hyd yn oed pe bai'r llywodraethau'n gwybod faint o gyfraith yr UE a ddargedwir oedd yn y DU, nid yw hyn yn lliniaru'r mesurau diogelu eraill sy'n cael eu colli o ganlyniad i'r Bil.

243. Yn ogystal â bod rhanddeiliaid yn mynegi'r farn hon, mae'r Pwyllgor Pwerau Dirprwyedig a Diwygio Rheoleiddio wedi dod i'r un casgliad a hefyd wedi disgrifio'r Bil fel siec wag a roddwyd yn nwylo Gweinidogion¹⁴¹.

244. At hynny, nodwn fod gan y Pwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth y pryder a ganlyn:

*"Even if a definitive list of the relevant law were eventually compiled in time for the deadline set out in the Bill, there will be no parliamentary scrutiny of the decisions of ministers that specific pieces of law should fall or the implications of their revocation."*¹⁴²

245. Rydym yn credu bod sgôr asesiad effaith y Bil gan y Pwyllgor Polisi Rheoleiddio fel bod yn anaddas i'r diben hefyd yn pwysleisio ein casgliad bod y Bil yn ymgorffori siec wag i lywodraethau.

246. I wneud pethau'n waeth, gall cyfreithiau 'syrthio' oddi ar y llyfr statud heb i Lywodraeth y DU – neu lywodraethau datganoledig, hyd yn oed – hysbysu Senedd y DU neu ddeddfwrfa ddatganoledig bod hyn wedi digwydd.

247. Ni fyddai gan Senedd y DU a deddfwrfeydd datganoledig unrhyw ffordd o bennu ai damwain neu gynllun oedd hyn – camgymeriad neu ddewis bwriadol. Byddai hyn yn creu galwadau pellach ar ddeddfwrfeydd sy'n ceisio deall cyfres o ddigwyddiadau sydd eisoes wedi digwydd.

Argymhelliad 9. Dylid diwygio'r Bil er mwyn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion osod gerbron deddfwrfeydd y DU, erbyn 30 Medi 2023, fanylion cyfraith yr UE a ddargedwir nad yw i'w hachub na'i diwygio – hynny yw, y gyfraith a fydd yn cael ei dirymu'n fwriadol ac na chaiff ei disodli, a'r hyn a fydd yn amodol ar ddarpariaeth machlud 31 Rhagfyr 2023 (os yw'r dyddiad machlud hwn yn parhau i fod yn y Bil).

¹⁴¹ Y Pwyllgor Pwerau Dirprwyedig a Diwygio Rheoleiddio, 25ain Adroddiad Sesiwn 2022-23, paragraff 13

¹⁴² Y Pwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth, 28ain Adroddiad Sesiwn 2022-23, 2 Chwefror 2023, paragraff 31

248. Rydym o'r farn y dylai deddfwrfeydd y DU gael hysbysiad amserol o unrhyw gyfraith yr UE a ddargedwir na fydd yn cael ei chadw na'i diwygio gan lywodraethau fel bod amser – pe na bai Aelodau etholedig o'r deddfwrfeydd yn cytuno – i wneud unrhyw wrthwynebiadau angenrheidiol y gallent, wedyn, gael eu hystyried gan lywodraethau. Rydym wedi argymhell y dylai gwybodaeth o'r fath fod ar gael erbyn diwedd mis Medi oherwydd, fel yr amlygwn ym mharagraff 279, bydd rhai pwerau gwneud rheoliadau yn y Bil (a'r gofynion craffu cysylltiedig) yn golygu y bydd angen i lywodraethau weithredu erbyn mis Hydref 2023 fan bellaf.

Tirwedd reoleiddiol

249. Rydym yn cytuno â'r Cwnsler Cyffredinol fod gwaharddiad y Bil ar Weinidogion rhag cynyddu'r baich rheoleiddio wrth arfer pwerau o dan gymal 15 yn gwbl annerbyniol. Dyma farn fwyafrifol y Pwyllgor.

250. Nodwn fod y Cwnsler Cyffredinol wedi cadarnhau y bydd angen deddfwriaeth ar wahân i godi safonau yn y dyfodol. Bydd hyn, i bob pwrpas, yn golygu y bydd angen cam ychwanegol os yw Llywodraeth Cymru am gyflawni ei huchelgais i godi safonau cyn Brexit yng Nghymru, drwy gymryd camau yn y lle cyntaf i achub cyfraith yr UE a ddargedwir gan ddefnyddio'r pwerau yn y Bil, cyn cyflwyno cynigion ar gyfer safonau uwch mewn deddfwriaeth newydd.

251. Rydym yn croesawu safbwynt cyffredinol Llywodraeth Cymru nad yw'n dymuno gweld gostyngiad mewn safonau yng Nghymru. Fodd bynnag, rydym yn adleisio pryderon rhanddeiliaid ac yn gresynu na roddodd y Cwnsler Cyffredinol ddigon o sicrwydd na fydd safonau pwysig yn cael eu colli.

252. At hynny, rydym yn nodi pryder rhanddeiliaid fod y Bil yn ddadredeoleiddiol ei natur.

Effaith y newidiadau a wnaed mewn mannau eraill

253. Rydym yn nodi'r modd y bydd newidiadau a wneir y tu allan i Gymru – i gyfraith yr UE a gadwyd yn ôl yn ogystal â chyfraith ddatganoledig yr UE a ddargedwir – yn effeithio ar Gymru.

254. Rydym yn aneglur ynghylch pa rôl – os o gwbl – sydd gan Lywodraeth Cymru, neu ba rôl a fydd ganddi o ran monitro neu ddylanwadu ar newidiadau o'r fath. Mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi nodi y gallai newidiadau ac anghydfodau gael eu trafod mewn fforymau rhynglywodraethol, gan gynnwys fframweithiau cyffredin¹⁴³.

¹⁴³ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 5 Rhagfyr 2022, Cofnod y Trafodion [345]

Fodd bynnag, mae hefyd wedi nodi nad yw holl gyfraith yr UE a ddargedwir wedi'i chwmpasu gan fframwaith cyffredin¹⁴⁴.

255. Rydym yn nodi pryderon rhanddeiliaid y gallai newidiadau mewn mannau eraill gael ôl-ffeithiau pwysig i Gymru.

256. Fel y pwyllgor sy'n gyfrifol am agweddau cyfansoddiadol ar faterion rhyngwladol ac am gytundebau rhyngwladol anfasnachol, rydym yn croesawu'r ymrwymiad a wnaed gan Lywodraeth y DU i gadw cyfraith yr UE a ddargedwir lle mae'n sail i rwymedigaethau rhyngwladol. Serch hynny, nodwn fod yna risg y gallai'r gyfraith UE hon a ddargedwir fachlud os na chaiff ei nodi a'i chadw cyn 31 Rhagfyr 2023.

Argymhelliad 10. Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod Cymru'n parhau i gydymffurfio â rhwymedigaethau rhyngwladol, fel sy'n ofynnol gan y setliad datganoli a Chod Gweinidogion Llywodraeth Cymru.

Argymhelliad 11. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau eglurder gan Lywodraeth y DU ynghylch y modd y bydd yn ystyried barn y Senedd mewn perthynas â newidiadau i gyfraith yr UE a ddargedwir, a gedwir yn ôl, yn enwedig mewn meysydd nad ydynt yn dod o dan fframweithiau cyffredin.

Fframweithiau cyffredin a Deddf Marchnad Fewnol y DU 2020

257. Bydd y Bil yn gweithredu ochr yn ochr â fframweithiau cyffredin a Deddf y Farchnad Fewnol.

258. Rydym yn rhannu ansicrwydd rhanddeiliaid, fel y nodir ym Mhennod 5.

Argymhelliad 12. Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddarparu asesiad ar fyrder o effaith gyfunol y Bil, fframweithiau cyffredin a Deddf Marchnad Fewnol y DU 2020.

259. Rydym yn rhannu pryderon rhanddeiliaid bod yr amserlen yn codi cwestiynau sylweddol am allu llywodraethau i ddefnyddio'r prosesau fframweithiau cyffredin perthnasol i drafod a chytuno ar newidiadau i'r corff sylweddol o gyfraith yr UE a ddargedwir a gwmpesir ganddynt, ac yn cyfyngu ar allu llywodraethau i wneud defnydd llawn o'r dulliau osgoi anghydfod a phrosesau datrys sydd wedi'u cynnwys yn y fframweithiau cyffredin.

¹⁴⁴ Llythyr oddi wrth y Cwnsler Cyffredinol, 19 Ionawr 2023

Argymhelliad 13. Dylai Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU roi sicrwydd bod yr holl newidiadau sy'n cael eu gwneud i gyfraith yr UE a ddargedwir o fewn maes a gwmpesir gan fframwaith cyffredin yn cael eu cymryd drwy'r broses fframwaith cyffredin perthnasol cyn iddi gael ei chadw, ei machlud, ei dirymu neu ei diwygio.

260. At hynny, rydym yn pryderu – mewn rhai achosion – fod effaith egwyddorion mynediad i'r farchnad yn Neddf y Farchnad Fewnol yn golygu y gallai penderfyniad gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â darn penodol o Gyfraith yr UE a ddargedwir gael ei danseilio, serch hynny, gan lywodraeth arall yn cymryd safbwynt gwahanol. Dyna'r hyn sy'n sail i'n barn fod ymgynghori a chydweithrediad rhynglywodraethol priodol – hyd yn oed o fewn yr amserlenni byr a ganiateir gan y Bil fel y'i drafftwyd – yn hanfodol. Dyma farn fwyafrifol y Pwyllgor.

Dibyniaeth deddfwriaeth Cymru ar gyfraith yr UE a ddargedwir

261. Rydym wedi ystyried Bil Amaethyddiaeth (Cymru) ar yr un pryd ag ystyried y Bil hwn. Mae Bil Amaethyddiaeth (Cymru) yn dibynnu ar weithrediad parhaus darnau penodol o gyfraith yr UE a ddargedwir.

262. Nododd ein hadroddiad ar y Bil Amaethyddiaeth (Cymru) nad oedd ymatebion Llywodraeth Cymru i'n cwestiynau ar y modd y bydd y Bil hwnnw'n effeithio ar ei darpariaethau yn ddigonol. Gwnaethom argymell, felly, fod y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd yn rhoi barn fwy pendant ar y mater hwn erbyn dechrau trafodion Cyfnod 3.¹⁴⁵ Ar adeg cytuno ar yr adroddiad hwn nid oedd y Gweinidog wedi ymateb i'r argymhelliad hwn.

263. Rydym o'r farn bod yr enghraifft hon yn dangos y risgiau y mae'r Bil hwn yn eu peri i ddeddfwriaeth sy'n cael ei datblygu ar hyn o bryd, ac i gyfreithiau'r dyfodol sy'n dibynnu ar weithrediad parhaus cyfraith yr UE a ddargedwir.

264. Rydym o'r farn bod perygl, yn y dyfodol, y gallai'r Senedd ganfod bod deddfwriaeth bresennol – gan gynnwys deddfwriaeth Cymru – yn dibynnu ar weithrediad parhaus cyfraith yr UE a ddargedwir a allai fod wedi'i dirymu drwy ddamwain neu drwy gynllun, gan gynnwys o ganlyniad i benderfyniadau a wnaed gan Lywodraeth y DU. Dyma farn fwyafrifol y Pwyllgor.

¹⁴⁵ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad Adroddiad ar Fil Amaethyddiaeth (Cymru), Ionawr 2023, paragraffau 88 i 90 ac argymhelliad 3

Effaith ar hawliau, egwyddorion a'r llysoedd

265. Bydd y Bil yn machlud yn awtomatig ar hawliau sy'n deillio o'r UE, ac ati, ar 31 Rhagfyr 2023, heb unrhyw opsiwn i estyn y dyddiad machlud hwn. Fodd bynnag, gall Gweinidogion ailadrodd effeithiau hawliau o'r fath, ac ati, gan ddefnyddio pwerau hyd at 23 Mehefin 2026.

266. Mae mwyafrif y Pwyllgor yn pryderu nad oes unrhyw sicrwydd yn y Bil y bydd hawliau sy'n deillio o'r UE, ac ati, sy'n amddiffyn ein dinasyddion – ac y maent wedi dod i ddibynnu arnynt – yn cael eu diogelu.

267. Rydym yn adleisio rhybuddion y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, y Prif Weinidog a'r Cwnsler Cyffredinol, fod y Bil, o bosibl, yn peri risg i hawliau dynol ac i grwpiau gwarchodedig.

268. Rydym yn pryderu bod hawliau sy'n deillio o'r UE yn cael eu dileu heb unrhyw awdurdodiad seneddol penodol. Dyma farn fwyafrifol y Pwyllgor.

269. Rydym yn cefnogi galwad y Comisiwn am ddiwygio'r Bil er mwyn sicrhau bod gwaith craffu effeithiol yn cael ei gynnal ar unrhyw reoliadau a allai arwain at newidiadau i'r hyn sy'n amddiffyn cydraddoldeb a hawliau dynol. Dyma farn fwyafrifol y Pwyllgor.

270. Rydym yn cydnabod pryder y Comisiwn fod y Bil mewn perygl o atchweliad o ran cydraddoldeb a hawliau dynol.

271. At hynny, rydym yn rhannu pryderon y Cwnsler Cyffredinol ynghylch effaith y Bil ar y Llysoedd a rôl swyddogion y gyfraith.

Goblygiadau i Fusnes y Senedd

Ein barn ni

272. O ystyried goblygiadau datganedig y Cwnsler Cyffredinol o ran capasiti Llywodraeth Cymru ac ar fusnes y Senedd, gwnaethom ysgrifennu at y Pwyllgor Busnes ar 21 Rhagfyr 2022 cyn adrodd yn ffurfiol ar y memoranda cydsyniad deddfwriaethol.¹⁴⁶

¹⁴⁶ Llythyr at y Pwyllgor Busnes, 21 Rhagfyr 2022

273. O ystyried goblygiadau eang y Bil, fe wnaethom hefyd ysgrifennu at bwyllgorau perthnasol y Senedd¹⁴⁷ a thynnu eu sylw at y dystiolaeth a gawsom gan randdeiliaid.

274. Gwnaethom ysgrifennu eto at y Pwyllgor Busnes ar 27 Ionawr 2023, gan dynnu ei sylw at y llythyr a gawsom gan y Cwnsler Cyffredinol ar 19 Ionawr 2023. Rhannwyd y llythyr hwn hefyd â phwyllgorau perthnasol y Senedd.

Casgliad 4. O ystyried yr hyn y gwyddom y bydd y Bil yn ei wneud a'r farn a fynegwyd gan Lywodraeth Cymru – ac yn seiliedig ar yr ychydig wybodaeth a roddwyd inni gan Lywodraeth Cymru ynghylch unrhyw gynllun strategol – rhaid inni ddod i'r casgliad bod yr amserlen ar gyfer y Bil, a achosir gan y dyddiad machlud, sef 31 Rhagfyr 2023, yn golygu ei bod yn debygol y byddwn ni a'r Senedd yn wynebu llwyth gwaith digynsail yn hydref 2023.

275. Unwaith eto, nodwn fod y Pwyllgor Pwerau Dirprwyedig a Diwygio Rheoleiddio wedi dod i gasgliad tebyg, gan nodi fel a ganlyn:

“The combination of (a) the cliff-edge sunset clause in clause 1, and (b) the extraordinary amount of legislation that may be produced in exercise of the powers in the Bill, risks such a deluge of subordinate legislation in a relatively short period of time (less than 12 months) that Parliament’s limited powers to scrutinise the changes are likely to be wholly compromised.”¹⁴⁸

276. Yn ogystal â hyn, ac fel y trafodwyd yn gynharach yn y Bennod hon, mae gan y dyddiad machlud ar 23 Mehefin 2026 hefyd oblygiadau sy'n unigryw i'r seneddau datganoledig oherwydd, yng Nghymru er enghraifft, mae'n debygol y bydd y Chweched Senedd yn cael ei diddymu ym mis Ebrill 2026 cyn etholiad y Senedd ym mis Mai 2026.

277. At hynny, rydym ymwybodol bod Angus Robertson ASA, Ysgrifennydd Cabinet Llywodraeth yr Alban dros y Cyfansoddiad, Materion Allanol a Diwylliant, wedi dweud yn ystod tystiolaeth i'r Pwyllgor Bil Cyhoeddus ar 8 Tachwedd 2022:

¹⁴⁷ Llythyr at Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 14 Rhagfyr 2022; Llythyr at y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 14 Rhagfyr 2022; Llythyr i'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith, 14 Rhagfyr 2022; Llythyr at y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, 14 Rhagfyr 2022; Llythyr at y Pwyllgor Busnes, 27 Ionawr 2023

¹⁴⁸ Y Pwyllgor Pwerau Dirprwyedig a Diwygio Rheoleiddio, 25ain Adroddiad Sesiwn 2022–23, paragraff 14

“We are talking about massive displacement activity in our Parliament here in Scotland. That is hugely challenging.”¹⁴⁹

278. Rydym yn nodi bod yr Arglwydd Callanan wedi hysbysu Tŷ'r Arglwyddi bod Llywodraeth y DU o'r farn, ar hyn o bryd, y bydd angen tua 1,000 o ddarnau o is-ddeddfwriaeth a fydd yn fwy manwl na'r rheini a gyflwynwyd o dan Ddeddf 2018. Nodwn ymhellach fod yr Arglwydd Callanan hefyd wedi dweud bod Llywodraeth y DU yn gweithio ar raglen ar gyfer yr is-ddeddfwriaeth hon.

Casgliad 5. Mae'n hanfodol bod Llywodraeth Cymru yn gwneud cynnydd brys gyda'i chynllun o ran y modd y bydd yn mynd i'r afael â gofynion y Bil, os a phryd y caiff ei ddeddfu.

Casgliad 6. Mae angen i Lywodraeth Cymru ymgysylltu ar frys â'r Senedd a chydgyssylltu'n agos â hi ar oblygiadau'r Bil – os a phan gaiff ei ddeddfu – ar raglen lywodraethu Llywodraeth Cymru a'r effaith ar fusnes y Senedd.

279. Fel enghraifft o oblygiadau gofynion craffu'r Bil i reoliadau penodol gael eu gwneud o dan gymalau 12, 13 neu 15 o'r Bil, pe bai Llywodraeth Cymru yn ceisio gwneud rheoliadau o'r fath gan ddefnyddio'r weithdrefn negyddol, credwn mai'r gofyniad o ran sifftio fyddai ar waith yn y lle cyntaf. Er mwyn darparu ar gyfer ein hargymhelliad y dylai'r rheoliadau gael eu gwneud, yn lle hynny, drwy'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft, rydym o'r farn y gallai'r rheoliadau diweddaraf o'r fath gael eu gosod gerbron y Senedd ddiwedd mis Hydref eleni.

280. Ym mis Rhagfyr 2022 gosodwyd y Senedd mewn sefyllfa anodd iawn pan ofynnodd Llywodraeth Cymru – yn sgil y ffaith bod pŵer dirprwyedig yn Neddf 2018 ar fin cael ei 'ddiffodd' – i'r Senedd gymeradwyo rheoliadau â nifer o ddiffygion hysbys.¹⁵⁰ Gyda'r profiad diweddar iawn hwn ar flaenau ein meddyliau, credwn ei bod yn hollbwysig bod Llywodraeth Cymru a'r Senedd yn barod i drefnu amser ychwanegol (ac yn gallu ymateb yn ystwyth pe bai angen) yn nhymor yr hydref 2023 fel y gellir cyflawni swyddogaethau priodol y ddau sefydliad fel sy'n gymwys.

281. Fel Pwyllgor byddwn yn cynllunio ar gyfer y modd y byddwn yn darparu ar gyfer y cynnydd tebygol yn y llwyth gwaith. Fodd bynnag, pe bai gofyniad i nifer

¹⁴⁹ Hansard, *Retained EU Law (Revocation and Reform Bill)*, 8 Tachwedd 2022, Colofn 78

¹⁵⁰ Gweler *Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Diwygio a Swyddogaethau Deddfwriaethol)* ac *Iechyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2022*, a *SL(6)291 - Rheoliadau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2022*

sylweddol o reoliadau sy'n deillio o'r Bil fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft, amser y Cyfarfod Llawn yw'r hyn y bydd angen ei sicrhau hefyd.

Argymhelliad 14. Dylai'r Pwyllgor Busnes ystyried ar fyrder a ddylid ymestyn tymor yr hydref i 22 Rhagfyr 2023, er mwyn darparu ar gyfer cyfarfodydd ychwanegol o'r Pwyllgor hwn ac eisteddiadau Cyfarfod Llawn ychwanegol a allai fod yn ofynnol ar gyfer ystyried rheoliadau sy'n deillio o'r Bil.

Cydsyniad deddfwriaethol

Ein barn ni

282. Rydym yn nodi asesiad Llywodraeth Cymru y dylid ceisio cydsyniad y Senedd ar gyfer holl gymalau ac Atodlenni'r Bil, ac eithrio cymal 18, fel y nodir yn y Memoranda, ac nad yw barn Llywodraeth y DU yn cyd-fynd â barn Llywodraeth Cymru.

283. Rydym yn nodi ymhellach y ceisir cydsyniad y Senedd ar gyfer cymalau 3 i 11 (ac Atodlen 1) oherwydd bod y darpariaethau hyn yn y Bil yn addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

Casgliad 7. Rydym yn cytuno ag asesiad Llywodraeth Cymru y dylid ceisio cydsyniad y Senedd ar gyfer holl gymalau'r Bil ac Atodlenni iddo, ac eithrio cymal 18.

Casgliad 8. Mae'r rhan fwyaf o'r Pwyllgor yn cytuno â'r Cwnsler Cyffredinol na ddylai'r Senedd roi ei chydsyniad i'r Bil; nid yw pob aelod o'r Pwyllgor o'r farn y dylid gwrthod cydsyniad.

Dull Llywodraeth Cymru o ran y Bil

Ein barn ni

284. Er y gallai dull Llywodraeth Cymru o ran y Bil fod yn ymylol i'n hystyriaeth o'r memoranda cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer y Bil – a'r materion brys a difrifol a godwyd gan y Bil ei hun – ni ellir ei eithrio o'n hystyriaeth.

Trefniadau gweithio rhynglywodraethol

285. Rydym yn cydnabod bod y Cwnsler Cyffredinol a Llywodraeth Cymru wedi dweud nad oedd llawer o weithio rhynglywodraethol ar y Bil cyn ei gyflwyno, sy'n siomedig.

286. Fodd bynnag, nodwn hefyd ei bod yn ymddangos bod hyn ychydig yn groes i sylwadau a wnaed gan Weinidogion Llywodraeth y DU.

287. Rydym yn bryderus, o leiaf, fod y gwahaniaeth barn hwn yn arwydd o gyfathrebu gwael rhwng llywodraethau. Ar ei waethaf, mae'n bosibl ei fod yn dangos diffyg parch rhwng y llywodraethau eto, o bosibl, o ganlyniad i anghytundebau sylweddol ar destun y Bil.

288. Beth bynnag yw'r rheswm, canlyniad y cysylltiadau rhynglywodraethol gwael yw bod y Senedd yn wynebu dwy broblem:

- Mae Llywodraeth Cymru yn atebol i'r Senedd ac felly, mae'n rhaid i ni fel Pwyllgor y Senedd ofyn cwestiynau iddi am unrhyw un o Filiau'r DU sy'n destun memoranda cydsyniad deddfwriaethol Llywodraeth Cymru. Pan fo amharu difrifol wedi bod ar waith rhynglywodraethol, yn aml nid yw Llywodraeth Cymru mewn sefyllfa i ateb ein cwestiynau yn foddhaol ac yn ddigon eglur.
- Er ein bod yn pryderu am y niferoedd gormodol o Filiau'r DU sy'n cynnwys darpariaethau mewn meysydd datganoledig (neu sy'n addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd), mae'r cyfnod diweddar wedi profi bod Biliau o'r fath – nad ydynt yn gynnwys cydweithredu rhynglywodraethol agos – yn fwy tebygol o gynnwys darpariaethau a fydd yn peri pryder i Lywodraeth Cymru ac i'r Senedd.

Opsiynau eraill i'r Bil

289. Rydym yn derbyn, cyn cyflwyno'r Bil, nad oedd gan Lywodraeth Cymru unrhyw gynlluniau i ailedrych ar gyfraith yr UE a ddargedwir fel corff cyfunol ac yn hytrach, ei bod wedi disgwyl adolygu cyfraith yr UE a ddargedwir yn ôl yr angen. O'r herwydd, o ran y rhaglen a ddatblygodd yn 2021 ar ddechrau'r Chweched Senedd, mae'n debygol na fydd Llywodraeth Cymru wedi rhagweld y gwaith y mae'r Bil wedi'i wneud ac y bydd yn ei gynhyrchu yn y misoedd nesaf.

290. At hynny, rydym yn cydnabod bod rhanddeiliaid, yn eu tystiolaeth i ni, yn cytuno â dull o'r fath, y dylid ystyried cyfraith yr UE a ddargedwir mewn ffordd fwy strwythuredig ar sail anghenion.

291. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru wedi gwybod ers dros flwyddyn fod Llywodraeth y DU yn bwriadu cyflwyno deddfwriaeth sy'n ymwneud â 'rhyddid Brexit' – a ddaeth yn Fil – ac rydym yn pryderu ynghylch y modd y mae Llywodraeth Cymru wedi ymdrin â'r Bil ers ei gyflwyno.

292. Rydym yn derbyn y gall Bil newid – ac y bydd yn newid – wrth iddo fynd drwy unrhyw ddeddfwrfa. Fodd bynnag, er mwyn lliniaru yn erbyn risg, rydym yn ei chael yn anodd deall pam nad yw'n ymddangos bod Llywodraeth Cymru wedi bod yn rhan o'i chynlluniau senario priodol ei hun eto, pe bai'r Bil yn cael ei ddeddfu.

293. Ni chawsom ein hargyhoeddi bod Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu dull clir a strategol o ddeall sut a phryd y bydd y Bil yn effeithio ar adrannau unigol yn Llywodraeth Cymru, a ffrydiau gwaith blaenoriaeth ynddi.

294. Wrth wneud y pwyntiau hyn, nodwn ei bod yn ymddangos bod Llywodraeth yr Alban ac adrannau Gogledd Iwerddon wedi mabwysiadu dulliau gwahanol i rai Llywodraeth Cymru, a'u bod yn ceisio nodi cyfraith yr UE a ddargedwir fel y mae'n effeithio ar yr Alban a Gogledd Iwerddon.

295. Rydym yn amlygu materion a phryderon pellach yn y paragraffau canlynol.

Dull gweithredu a strategaeth gyffredinol Llywodraeth Cymru

296. Yn ein barn ni, mae dull gweithredu Llywodraeth Cymru yn arwain at dri o oblygiadau uniongyrchol a thrafferthus i'r Senedd:

1. Yn gyntaf, mae'n cynyddu'r tebygolrwydd y bydd Gweinidogion y DU yn deddfu mewn meysydd datganoledig i Gymru, wrth i amser Gweinidogion Cymru ddod i ben ac wrth i'w dibyniaeth ar un o Weinidogion y DU gynyddu.
2. Yn ail, os yw Gweinidogion Cymru i weithredu ar ôl Gweinidogion y DU, mae hyn yn cynyddu'r tebygolrwydd y bydd penderfyniadau'n cael eu gwneud mor hwyr â phosibl, hyd at 23:59, o bosibl, ar 31 Rhagfyr 2023. Fe fyddwn ni, wedyn – fel Pwyllgor y Senedd sy'n gyfrifol am ystyried holl is-ddeddfwriaeth Cymru – yn dychwelyd i ystyried y rheoliadau hyn a wnaed yn ystod toriad Nadolig y Senedd ym mis Ionawr 2024.
3. Yn drydydd – yn ôl ei gair ei hun – ni fydd gan Lywodraeth Cymru ddarlun llawn o effaith penderfyniadau a wneir mewn mannau eraill ar Gymru. Wrth aros am benderfyniadau i'w gwneud gan Weinidogion y DU, ni fydd Gweinidogion Cymru yn debygol o fod mewn sefyllfa i asesu – nac i ailasesu'n barhaus – effaith penderfyniadau o'r fath er mwyn pennu pa gamau sydd eu hangen i gyrraedd y canlyniad a ddymunir.

297. O ran pwynt 2 uchod, er y byddem yn ystyried ym mis Ionawr 2024 unrhyw reoliadau cymal 1(2) a osodwyd gerbron y Senedd ddiwedd mis Rhagfyr 2023, cyfyngedig iawn yw'r opsiynau sydd ar gael i Aelodau etholedig o'r Senedd godi pryderon ynghylch offerynnau negyddol. Os byddwn ni fel Pwyllgor yn nodi materion – neu os bydd Aelod o'r Senedd yn gwrthwynebu hyd yn oed ran fach o offeryn ar sail polisi – yr unig opsiwn sydd ar gael yw cyflwyno cynnig i ddirymu'r offeryn. Os caiff cynnig o'r fath ei gymeradwyo, byddai'r offeryn cyfan yn cael ei golli ynghyd â holl gyfraith yr UE a ddargedwir a gadwyd gan yr offeryn, hynny yw ni fyddai cyfraith yr UE a ddargedwir yn cael ei chadw, mwyach, rhag y machlud. Mae'n aneglur iawn pa gamau eraill y gellid eu cymryd, wedyn, o ystyried y bydd y pwerau yn y Bil i gadw cyfraith yr UE a ddargedwir rhag y machlud wedi 'diffodd'.

298. Rydym wedi cael trafferth nodi pa strategaeth glir sydd gan Lywodraeth Cymru o ran ei hymagwedd at gyfraith yr UE a ddargedwir. Rydym yn cydnabod bod Llywodraeth Cymru yn gwrthwynebu'r Bil a'i bod o'r farn bod cyfraith yr UE a ddargedwir yn gweithio'n dda, ar y cyfan, ac felly nid oedd ganddi unrhyw gynlluniau i ailedrych ar gyfraith yr UE a ddargedwir yn llw.

299. Fodd bynnag, mae cynlluniau Llywodraeth y DU wedi bod yn gyhoeddus ers peth amser (18 mis) ac rydym, felly, yn synnu bod gwaith cynllunio a pharatoadau Llywodraeth Cymru gymaint ar ei hôl hi.

300. Rydym yn cytuno â Llywodraeth Cymru fod angen dull mwy ystyriol o adolygu cyfraith yr UE a ddargedwir na'r hyn a gynigir gan y Bil yn ei ffurf bresennol.

301. Fodd bynnag, os caiff y Bil ei ddeddfu, mae angen i Lywodraeth Cymru fynegi strategaeth glir ar fyrder. Hyd yn hyn, nid ydym yn argyhoeddedig bod Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno negeseuon cyson. Mae wedi sôn am gadw cyfraith yr UE a ddargedwir a hefyd am gael dull brysbennu o nodi cyfraith yr UE a ddargedwir â blaenoriaeth, ac yna hefyd am gadw oni bai bod rheswm da iawn dros beidio â gwneud hynny. Er y gallai fod angen iddi ystyried dulliau gweithredu ar gyfer darnau unigol o gyfraith yng nghyd-destun penderfyniadau a wneir mewn gwledydd eraill yn y DU, dylai fod gan Lywodraeth Cymru strategaeth annibynnol, wedi'i mynegi'n glir, y bydd yn gwneud y penderfyniadau unigol hyn yn unol â'r strategaeth honno.

302. At hynny, mae angen i Lywodraeth Cymru gyfleu'r strategaeth hon i randdeiliaid ac ymgysylltu â hwy fel mater o flaenoriaeth.

Casgliad 9. Rydym o'r farn y dylai penderfyniadau a wneir o dan gyfundrefn y Bil (os a phryd y'i deddfir) gael eu gwneud fesul achos, gydag ymgynghoriad llawn â rhanddeiliaid a throsolwg seneddol.

303. Fel y nodwyd gennym yn gynharach, mae'n dal i fod yn wir, os daw'r Bil yn gyfraith, y bydd Gweinidogion Cymru yn cael pwerau eithriadol o eang i newid y gyfraith bresennol drwy is-ddeddfwriaeth ar faterion y byddem, o bosibl, yn disgwyl i ddeddfwriaeth sylfaenol ymdrin â hwy.

Casgliad 10. Rydym o'r farn bod y dull presennol o weithredu gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru fel ei gilydd, yn golygu bod y risg o osgoi'r Senedd yn uchel iawn.

304. O ran penderfyniad Llywodraeth Cymru i beidio ag asesu effaith y Bil ar Gymru, rydym yn cydnabod bod rhai heriau yn bodoli. Fodd bynnag, rydym o'r farn bod hyn yn dangos mwy o reswm fyth dros gynnal asesiad o effaith.

Argymhelliad 15. Dylai Llywodraeth Cymru asesu effaith y Bil ar Gymru fel mater o frys i gynorthwyo'r Senedd a rhanddeiliaid i ddeall goblygiadau'r Bil i Gymru yn well.

Ceisio gwelliannau i'r Bil

305. Rydym yn nodi'r hyn y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud, a'r hyn nad yw wedi'i wneud, o ran ceisio gwelliannau i'r Bil.

306. Mae'r ffaith bod y Cwnsler Cyffredinol wedi darparu gwybodaeth gyfyngedig am ba welliannau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u ceisio'n weithredol yn creu rhwystrau i'n gwaith craffu wrth asesu i ba raddau – os o gwbl – y mae pryderon Llywodraeth Cymru wedi'u cynrychioli, eu cyfleu neu yr aethpwyd i'r afael â hwy.

307. At hynny, mae'n codi cwestiynau ynghylch a fyddai Llywodraeth Cymru mewn sefyllfa i argymhell cydsyniad pe bai Llywodraeth y DU yn mynd i'r afael â'i phryderon a restrir yn y memoranda cydsyniad deddfwriaethol er boddhad Llywodraeth Cymru.

308. Rydym o'r farn bod hon yn elfen anfoddhaol iawn o'n gwaith craffu hyd yn hyn.

309. At hynny, mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi dweud bod Llywodraeth Cymru yn dibynnu ar newidiadau a gyflwynwyd gan "eraill" i gyflawni'r canlyniadau sy'n ddymunol ganddi.

310. Rydym yn ei chael yn anodd cysoni'r dull hwn â'r ffaith i rybuddion Llywodraeth Cymru ynghylch y Bil ddwysáu ers ei gyflwyno ym mis Medi 2022.

311. Fel y cyfryw, nid ydym yn glir ai'r dull a ffefrir gan Lywodraeth Cymru yw i'r Bil gael ei dynnu'n ôl yn ei gyfanrwydd, neu a oes unrhyw amgylchiadau lle y gallai awgrymu cydsynio i'r Bil.

312. Mae'r diffyg eglurder hwn i'w weld gan gadarnhad y Cwnsler Cyffredinol – ers gosod Memorandwm Rhif 2 – nad yw Llywodraeth Cymru wedi addasu ei dull o ran y Bil, er gwaethaf y ffaith nad yw ei hymdrechion i geisio gwelliannau i'r Bil wedi llwyddo, hyd yn hyn.

Argymhelliad 16. Dylai'r Cwnsler Cyffredinol wneud y canlynol:

- cadarnhau a fyddai amgylchiadau lle byddai Llywodraeth Cymru yn argymhell bod y Senedd yn cydsynio i'r Bil, ac egluro beth yw'r cyfryw amgylchiadau;
- darparu rhestr gynhwysfawr i ni o'r gwelliannau i'r Bil y mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn amdanynt a/neu wedi'u cefnogi.

Rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru

313. I gloi, nid ydym wedi ein hargyhoeddi gan esboniadau Llywodraeth Cymru am effaith bosibl y Bil ar ei rhaglen ddeddfwriaethol ei hun ac felly ar gyflwyno deddfwriaeth i Gymru.

314. Rydym yn nodi bod y Cwnsler Cyffredinol wedi dweud nad yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu rhoi unrhyw agwedd ar ei rhaglen ddeddfwriaethol o'r neilltu. Rydym yn ei chael yn anodd cysoni'r sylw hwn â datganiadau ailadroddus y Cwnsler Cyffredinol y byddai Llywodraeth Cymru wedi'i gorlethu gan ofynion y Bil (os a phan gaiff ei ddeddfu).

315. Mae'r diffyg darlun clir ar y mater hwn yn cael ei ddangos ymhellach gan sylwadau a wnaed gan y Prif Weinidog, sef y byddai angen dargyfeirio capasiti o fannau eraill yn Llywodraeth Cymru er mwyn ymdopi â'r Bil.

316. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gyflwyno deddfwriaeth erbyn 2026 mewn perthynas â materion pwysig i Gymru, gan gynnwys deddfwriaeth sy'n ymwneud ag aer glân, integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, diwygio etholiadau llywodraeth leol, yn ogystal â deddfwriaeth i ddiwygio'r Senedd.

317. Os yw deddfwriaeth o'r fath i gael ei gohirio – ac os penderfynir na fydd modd cyflawni unrhyw flaenoriaethau gan Lywodraeth Cymru – rhaid i Lywodraeth Cymru wneud hyn yn glir i'r Senedd ac i randdeiliaid.

Argymhelliad 17. Rhaid i Lywodraeth Cymru egluro goblygiadau o ran adnoddau a chapasiti i Lywodraeth Cymru yn sgil rhoi Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) ar waith (pe bai'n cael ei ddeddfu), nodi asesiad gonest a didwyll o'r cyfryw oblygiadau a hefyd nodi'n glir yr hyn – os oes unrhyw beth – y bydd angen ei ddadleoli o ran gweithgarwch deddfwriaethol arall, er mwyn sicrhau y gall gyflawni'r tasgau sydd angen iddi eu cwblhau erbyn diwedd 2023.